

A photograph of a stone courtyard with a round tower and a stone wall. The scene is captured in a muted, blue-tinted color palette. In the center, a tall, cylindrical stone tower stands prominently, featuring a small, narrow window and a larger, recessed opening. To the left, a low stone wall runs along the edge of the courtyard. To the right, a high, thick stone wall curves away. In the background, a white building with a green door and windows is visible. The sky is overcast and grey. The overall atmosphere is historical and somber.

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants

Gwerthusiad Cymeriad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin

Contents

Crynodeb	1
1.0 Cyflwyniad	2
2.0 Deall y Safle	6
3.0 Datblygiad Hanesyddol	8
4.0 Dadansoddiad Gofodol	14
5.0 Cymeriad a Gwedd	30
6.0 Dadansoddiad	43
7.0 Arwyddocâd	44
8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli	48
9.0 Cyfleoedd	64
Atodiadau	67
Atodiad I: Llyfryddiaeth	68
Atodiad II: Geirfa	71
Atodiad III: Mapiau	77
Atodiad IV: Arolwg Ffiniau	77
Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi ac Arweiniad	78

Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Cyngor Sir Caerfyrddin ar:

BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk

Cyfieithwyd yr adroddiad hwn gan drydydd parti, ac nid oes gan Donald Insall Associates unrhyw gyfrifoldeb drosto.

Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol sydd ynddo ac sy'n deillio ohono yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient neu o dan drwydded iddo. Ni chaniateir atgynhyrchu'r adroddiad cyfan nac unrhyw ran o'r adroddiad hwn, nac unrhyw luniad, cynllun, dogfen arall nac unrhyw wybodaeth a gynhwysir ynddo mewn unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient fel y bo'n briodol. Ni chaniateir cyhoeddi nac atgynhyrchu'r holl ddeunydd y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi'u trwyddedu i DIA neu'r cleient ynddo a bod hawliau o'r fath yn perthyn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf, ac unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath ar gyfer cyhoeddi neu atgynhyrchu gael ei wneud yn uniongyrchol i berchennog yr hawliau eiddo deallusol sydd ynddynt.

Crynodeb

Dynodwyd Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin ym 1971. Bellach mae'n briodol ac yn angenrheidiol i bwyso a mesur arwyddocâd yr ardal hon, ystyried a yw'r ffiniau presennol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain y gwaith o reoli, cadw a gwella'r ardal yn y dyfodol. Dyna nod y ddogfen hon.

Mae gan yr ardal hanes aml-haenog, yn deillio o feddiannaeth y Rhufeiniaid yn y dref hyd at ei datblygiad yn yr 20fed ganrif. Mae'r esblygiad hanesyddol hwn wedi gadael etifeddiaeth o ddiddordeb pensaernïol a chymeriad y mae'n ddymunol ei gadw neu ei wella. Ystyrir y canlynol fel nodweddion arwyddocaol allweddol yr ardal:

1. Safle Caerfyrddin Newydd a'r castell y datblygodd y dref ohono
2. Patrwm strydoedd hanesyddol sydd wedi goroesi i raddau helaeth o esblygiad organig a chynlluniedig yn newid y ffordd yr ydych yn symud ac yn gweld yr ardal
3. Amrywiaeth o ddefnyddiau, mathau, oedrannau, deunyddiau a manylion adeiladau sy'n newid eich persbectif yn barhaus
4. Dau sgwâr tref amlwg o darddiad hanesyddol
5. Enghreifftiau da o adfywio trefol yn yr 20fed Ganrif

Daethpwyd i'r casgliad y dylai statws ardal gadwraeth yr ardaloedd barhau, ond y dylid creu dwy ardal gymeriad newydd. adlewyrchu'r ddau batrwm datblygu gwahanol o fewn yr Ardal Gadwraeth yn ogystal ag un newid bach

i'r ffin i adlewyrchu ei gyflwr presennol a chynnwys ardaloedd na edrychwyd arnynt yn flaenorol ond sy'n arwyddocaol.



1



2



3



4



5

1.0 Cyflwyniad

1.1 Diben a Chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (Insall) mewn ymateb i friff a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) ar gyfer paratoi Gwerthusiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth ar gyfer Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin. Mae'r adroddiad hwn wedi'i ariannu drwy grant o'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol. Nod y prosiect yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth bresennol i ddeall a mynegi beth sy'n ei gwneud yn arbennig, ystyried a yw'r ffiniau presennol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain y gwaith o reoli, cynnal a chadw a datblygu'r ardal yn y dyfodol. Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan berchnogion adeiladau sy'n dymuno gwneud gwaith ar eu heiddo, gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried newid i adeiladau presennol a chan staff Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau.

Mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno mewn 4 rhan:

Deall yr ardal: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o'r ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.

Gwerthusiad safle: Mae hwn yn nodi elfennau allweddol yr Ardal Gadwraeth (CA) a sut maent yn cyfrannu at ei chymeriad, ei hedrychiad a'i harwyddocâd.

Materion, bygythiadau a rheolaeth: Mae'r adroddiad yn parhau gydag arsylwadau ar faterion a bygythiadau penodol ac mae'n nodi cyfres o egwyddorion i helpu arwain datblygiad yn y dyfodol tra'n sicrhau bod diddordeb arbennig yr ardal yn cael ei gadw a'i wella lle bo modd.

Cyfleoedd: Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar gyfleoedd sydd wedi'u nodi i lywio'r adran casgliadau.

1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

Mae ardaloedd cadwraeth yn 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella'u cymeriad neu eu golwg

Mae ardaloedd cadwraeth yn rhannau arbennig o'r amgylchedd hanesyddol a ddynodwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath arbennig o anheddiad, cynllunio tref, neu grŵp o adeiladau o arddull rhanbarthol neu leol nodedig neu o ansawdd pensaernïol uchel. Mae diddordeb hanesyddol yn gysylltiedig ag esblygiad hanesyddol lle, cyfnod penodol neu â symudiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol megis tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archeolegol, pensaernïol neu dopograffig o wreiddiau a phrif gyfnodau datblygu wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad trwy bethau megis arddulliau adeiladu, deunyddiau, cynlluniau strydoedd, defnydd tir a chyfnodau o ddatblygiad.

O fewn y system gynllunio, mae ceisiadau am newid o fewn Ardal Gadwraeth yn cael eu hasesu i ddeall yr effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar arwyddocâd. Arwyddocâd yw un o'r egwyddorion arweiniol sy'n rhedeg drwy Bolisi Cynllunio Cymru 2021 (PPW). Gall hyn fod o arwyddocâd archeolegol, pensaernïol, artistig neu hanesyddol a gall ddeillio nid yn unig o bresenoldeb ffisegol ond hefyd o'i leoliad.

Rhoddir rheolaethau rheoleiddiol ychwanegol ar waith penodol o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, gan gynnwys dymchwel, gwaith ar goed a hysbysebion. Mae'n ofynnol i bob penderfyniad cynllunio gael ei asesu yn erbyn arwyddocâd yr ardal er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i gwella lle bo modd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais am newid neu sy'n gwneud penderfyniadau a all ddeall lle y gallai cynigion effeithio ar hyn a phennu a yw hwn yn newid cadarnhaol neu negyddol.

1.3 Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cysylltiedig

Mae'r darpariaethau allweddol ar gyfer dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, polisi cynllunio'r llywodraeth a chanllawiau. Mae hyn yn cynnwys:

Y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 Chwefror 2021

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017
Cynllun Cyflawni Economaidd De-orllewin Cymru, Medi 2021

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021

Ceir crynodeb a dolenni i'r dogfennau hyn mewn atodiad i'r ddogfen hon.

1.4 Adfywio Treftadaeth

Mae ein treftadaeth adeiledig yn adnodd enfawr sy'n helpu siapiau sut mae ein trefi a'n pentrefi'n edrych ac yn teimlo. Mae rhoi bywyd newydd i'r asedau hyn wedi bod yn un o gonglfeini adfywiad economaidd a chymdeithasol ein trefi ac mae integreiddio treftadaeth i brosiectau adfywio wedi chwarae rhan gynyddol bwysig a llwyddiannus mewn llawer o gynlluniau adfywio mawr, gan ddarparu cyfleoedd i gadwraeth a datblygu gydweithio i drawsnewid yr amgylchedd adeiledig.

Hyd yn oed pan mewn cyflwr gwael neu wag, mae ein treftadaeth adeiledig yn parhau i fod yn 'ased' gyda'r gallu i gyfoethogi ein profiad o'n hamgylchoedd trwy wead eu cysylltiadau hanesyddol neu gymunedol. Mae asedau treftadaeth hefyd yn elfen allweddol o ddatblygu cynaliadwy. Mae adnewyddu adeiladau yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o egni ac mae ailddefnyddio adeiladau yn diogelu'r carbon ymgorfforedig a allyrrir wrth gynhyrchu'r deunyddiau a ddefnyddir. Gellir gwneud llawer o welliannau arbed ynni i adeiladau hŷn, yn aml am gost gymharol isel, gan greu adeiladau cyfforddus ac ynni-effeithlon.

Mae achos economaidd cryf dros adfywio adeiladau hanesyddol. Mae'r buddion hyn yn ymwneud nid yn unig â'r adeilad unigol, ond hefyd â'r ardal a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys:

- gwella'r dref a'r gofodau o'u cwmpas
- gwelliannau mewn diogelwch personol a lleihau troseddu
- mwy o gyfranogiad cymunedol ac ymdeimlad o berchnogaeth sydd yn ei dro yn helpu cadw lleoedd mewn cyflwr da ac annog buddsoddiad pellach
- cynyddu cyflogaeth
- gwrthdroi dirywiad poblogaeth
- gwella delwedd i annog mwy o ddefnydd ac ymwelwyr
- gwella hyder a chreu ymdeimlad o falchder
- mewnfuddsoddiad anuniongyrchol i'r ardal ehangach
- defnydd cynaliadwy o adnoddau drwy ailddefnyddio deunyddiau'r gorffennol ac ynni sydd wedi'i fewnosod

Gall asedau treftadaeth weithiau gael eu gweld fel rhwystr i adfywio a'u hystyried yn rhy gostus, yn annichonadwy, yn ddiffygiol ac yn methu â bodloni dymuniadau deiliaid neu ddatblygwyr. Ac eto mae treftadaeth yn cael ei gwerthfawrogi gan bobl a chymunedau, ac mae'n ffurfio rhan, neu weithiau y cyfan, o hunaniaeth lle. Mae adeiladau a gofodau hanesyddol yn cyfoethogi ein trefi, ein profiad, yn creu ymdeimlad o le a chyrchfan. Yr allwedd yw dod o hyd i'r defnydd ymarferol gorau posibl ar gyfer yr ased y gellir ei gynnwys heb effeithio ar ei werth cadwraeth ac sy'n gynaliadwy yn economaidd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cost i beidio ag ymdrechu i integreiddio adeiladau treftadaeth yn llwyddiannus mewn cynlluniau adfywio. Gall ased treftadaeth nad yw'n derbyn gofal a chynnal a chadw digonol ddadfeilio'n gyflym, gostwng ansawdd yr amgylchedd yn gyffredinol, a gwrthweithio'r mentrau sy'n cael eu cynnal. Mae Heritage Works yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng Historic England, RICS a'r British Property Foundation i helpu tywys perchnogion a datblygwyr drwy'r broses o adfywio treftadaeth, a cheir dolen iddo yn atodiad y ddogfen hon. Mae ymchwil cyfatebol hefyd yn cael ei wneud gan Cadw a Llywodraeth Cymru i ychwanegu at y drafodaeth hon.

1.5 Datganiad Dull

Ymgwymerwyd â'r canlynol wrth baratoi'r adroddiad hwn:

1. Adolygu'r wybodaeth bresennol

Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau er mwyn deall diddordeb hanesyddol a phensaernïol yr ardal, gan gynnwys dogfennau cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau mabwysiedig a rhai sy'n dod i'r amlwg, a deddfwriaeth ac adnoddau ar-lein.

2. Casglu Gwybodaeth

Ymwelodd Insalls â safleoedd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2022 i wneud dadansoddiad ffabrig a gofodol. Edrychwyd ar adeiladau a safleoedd o'r parth cyhoeddus ac ni chawsant eu harchwilio'n fewnol.

3. Ymgysylltiad Cymunedol

Un o nodau allweddol y prosiect yw deall a mynegi'n glir yr hyn y mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol perthnasol a staff y Cyngor wrth ddrafftio'r ddogfen hon ac mae hyn wedi helpu i lunio ei gasgliadau. Dylid ystyried y ddogfen hon fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth a chaiff ei rhannu ymhellach â rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth i ddeall safbwyntiau lleol ar werth nodweddion treflun, materion a chyfleoedd.

2.0 Deall y Safle

2.1 Crynodeb o Arwyddocâd a Chymeriad

Crynoir nodweddion allweddol yr ardal ac eitemau o bwys isod (ceir rhestr fwy eang yn adran 7).

- Yn cynnwys Castell Caerfyrddin, safle o bwysigrwydd cenedlaethol a lleol yn natblygiad Caerfyrddin
- Yn ffinio dwy heneb gofrestredig sy'n ymwneud â gweddillion Rhufeinig Moridunum yn ogystal â rhai gweddillion uwchben ac o dan y ddaear o'r dref ganoloesol yn cynnwys muriau a giatau'r dref
- Yn cynnwys Eglwys San Pedr, y credir ei bod yr adeilad hynaf yng Nghaerfyrddin
- Y rhwydwaith strydoedd hanesyddol a dyfodd o ddatblygiad y castell, y dref furiog a'i ehangiad ac sy'n dal i fod yn ei ffurf wreiddiol i raddau helaeth
- Dwy farchnad o darddiad canoloesol sy'n goroesi yn eu lleoliad, ffurf a defnydd
- Yn cynrychioli'r cyfnod o dwf o fewn y 18fed a 19eg
- Ganrif yng Nghaerfyrddin
- Nifer o enghreifftiau da o adeiladau preswyl, masnachol a chyhoeddus o'r 18fed a 19eg ganrif sy'n ffurfio strydlun dwysedd uchel
- Strwythurau rhestredig nodedig, gan gynnwys Neuadd y Dref ac Eglwys San Pedr
- Amrywiaeth o doeau cadarnhaol
- Rhai blaenau siopau o'r 19eg ganrif o ansawdd da
- Enghreifftiau da o adfywio trefol o ddechrau – canol yr 20fed Ganrif
- Nifer o drigolion nodedig ac mae digwyddiadau wedi digwydd o fewn yr Ardal
- Golygfeydd hir a di-dor yn cyferbynnu â cip-olwg o olygfeydd a sgwariau'r dref gan ddarparu amrywiaeth i'r ffordd y byddwch yn symud drwy ac yn gweld yr ardal
- Gwaith haearn hanesyddol



Y Clos Mawr o'r Porth Tywyll



Heol y Brenin gan edrych tuag at Maes Nott


2.2 Lleoliad

Mae Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin yn ganolog i Gaerfyrddin, sef tref sirol Sir Gaerfyrddin a'r dref hynaf y cofnodwyd bod pobl yn byw ynddi'n barhaus yng Nghymru. Mae'r Ardal Gadwraeth yn ffinio ag Ardal Gadwraeth Heol Awst i'r gorllewin, Ardal Gadwraeth Heol y Prior i'r dwyrain, Ardal Gadwraeth Gogledd Caerfyrddin i'r gogledd, Ardal Gadwraeth Y Cei/Towyside i'r de-orllewin ac Ardal Gadwraeth Y Rhodfa/Y Llannerch i'r de-orllewin, sy'n cynnwys rhannau o afon Tywi. Mae ffurf yr Ardal Gadwraeth wedi'i sefydlu'n bennaf gan ei gynllun hanesyddol sy'n parhau i fod yn gyfan i raddau helaeth, a ddatblygwyd o sefydlu'r castell a'i ehangu i'r dwyrain a'r gorllewin, gydag adeiladau'n gyffredinol yn dilyn llinell y strydoedd a'r marchnadoedd.

2.3 Topograffi a lleoliad

Mae'r dref wedi'i lleoli ar lan ogledd-orllewinol afon Tywi, tua naw milltir o Fae Caerfyrddin ac mae ganddi rai o'r golygfeydd gorau yn Nyffryn Tywi oherwydd ei thopograffeg, gan godi'n serth i fyny i'r gogledd a darparu golygfeydd panoramig eang o gefn gwlad y tu hwnt. Saif y castell ar ael bryn ar y pwynt uchaf yn y dref, yn codi'n sydyn o'r afon islaw ac i bob pwrpas yn cyfyngu ar olygfeydd i'r Ardal Gadwraeth o ymyl yr afon yn y fan hon, gan greu ffin galed i'r Ardal Gadwraeth. Mae'r dynesfeydd tuag at Heol Las a Castle Hill sy'n amgylchynu'r castell yn darparu golygfeydd pellgyrhaeddol i'r Ardal Gadwraeth, yn ogystal ag allan i'r wlad o amgylch i'r de. Mae yna hefyd godiad o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng y Clos Mawr a Maes Nott sy'n creu cyfres o olygfeydd rhwng y dref ac yn cadw'r cyswllt hanesyddol rhwng y Castell a'r cyn borth gorllewinol.

Mewn cyferbyniad, mae rhan ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth yn gymharol wastad sy'n cynnig golygfeydd pellgyrhaeddol o'r dwyrain i'r gorllewin ac i mewn i Ardal Gadwraeth Heol Awst, sy'n eich galluogi i weld llawer o'r ardal yn ei chyfanrwydd. Lle mae datblygiad yn torri ar draws y golygfeydd hyn, gall effeithio'n sylweddol ar yr Ardal Gadwraeth.



3.0 Datblygiad Hanesyddol

Crynodeb o Ddatblygiad Hanesyddol Tref Caerfyrddin

Moridunum

Y gred gyffredin yw mai dyma'r dref hynaf yng Nghymru sydd wedi ei meddiannu'n barhaus, a chafodd Caerfyrddin ei hadeiladu ar y ffordd Rufeinig fawr, yn y fan lle'r ailymunai dwy gangen. Yn cael ei hadnabod fel Moridunum ('Caer y Môr') mae'r anheddiad cynharaf yn dyddio o tua OC75 ac mae'r dref wedi bod yn ganolfan weinyddol bwysig ac yn lleoliad strategol ers hynny. Cofnodwyd y dref yn Nheithlyfr Antoninus, sef cofrestr o orsafoedd Rhufeinig a phellteroedd ar hyd ffordd, a chredir bod yr orsaf wedi meddiannu'r safle y codwyd y castell arno wedyn. Mae'r amffitheatr Rufeinig i'r dwyrain o'r Dref yn un o ddim ond saith amffitheatr sydd wedi goroesi ym Mhrydain a dim ond dwy yn y Gymru Rufeinig. Sefydlwyd harbwr i'r gorllewin o'r dref gyda phont i lawr yr afon yn cynnig mynediad ar draws Afon Tywi. Ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid, daeth y dref yn brif sedd y llywodraeth yn Ne Cymru. Credir bod y dref Rufeinig wedi'i lleoli i'r dwyrain o Heol y Brenin gan ymgorffori safle presennol Eglwys San Pedr. Mae dwy Heneb Gofrestredig yn ffinio ag Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin; y dref Rufeinig i'r gogledd o Eglwys San Pedr a'r rhan i'r de o Heol Spilman o'r Gaer Rufeinig a fyddai wedi'i hadeiladu y tu allan i'r muriau Rhufeinig.

Gan ei bod y tu allan i'r Dref Rufeinig, mae'n debygol y byddai'r Ardal Gadwraeth ar yr adeg hon wedi cynnwys tir amaethyddol a rhai tai gwasgaredig.

Yr Oesoedd Canol

Yn ystod yr Oesoedd Canol daeth yr anheddiad i gael ei adnabod fel Llanteulyddog ac roedd yn un o'r saith prif sedd yn Nyfed, un o nifer o deyrnasoedd Cymreig a ddaeth i'r amlwg ar ôl goresgyniad y Rhufeiniaid. Cyfeirir ato bellach fel Hen Gaerfyrddin, ac mae'n debygol bod yr anheddiad Cymreig cyn-Eingl-Normanaidd wedi'i sefydlu, o Eglwys San Pedr tua'r dwyrain ar hyd Heol y Prior. Adroddir bod marchnad yn ogystal â 100 o leiniau bwrtais wedi'u sefydlu yma, yn ogystal â thŷ crefyddol wedi'i gysegru i Sant Teulyddog.

Cydnabuwyd pwysigrwydd strategol y dref pan adeiladwyd y castell tua 1094, er bod y dystiolaeth gofnodedig gyntaf o feddiannaeth ar y castell yn 1116 gan William o Gaerloyw. Wedi'i leoli ar deras uchel uwchben pwynt croesi isaf Afon Tywi, daeth y castell yn ganolbwynt grym Seisnig a'r arglwyddiaeth Eingl-Normanaidd leol yn ne orllewin Cymru, gyda thref 'Caerfyrddin Newydd' yn datblygu o'i gwmpas. Y castell cyntaf i gael ei adeiladu oedd strwythur mwnt a beili pren gyda ffos yn gorwedd ar y llinell i Riw'r Castell.

Sefydlwyd Priordy Sant Ioan hefyd tua'r amser hwn, a aned allan o gymuned grefyddol Gymreig a sefydlodd ei hun yn y dref cyn dyfodiad y Normaniaid. Credir mai Llyfr Du Caerfyrddin, a ysgrifennwyd yn y Priordy, yw'r llawysgrif gynharaf sydd wedi goroesi a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn unig, ac ymhlith barddoniaeth eraill, mae'n cynnwys y chwedlau Arthuriaidd. Cofnodwyd San Pedr gyntaf yn y '1110 Chronicles of Battle Abbey' pan gafodd ei rhoi, ynghyd â thŷ mynachaid, gan ddychwelyd yn ddiweddarach i Esgob Tyddewi ym 1125. Safai'r Priordy ei hun ymhellach i'r dwyrain.



Suspected plan of the town in the 12th century



Suspected plan of the town in the 13th century

Bu'r castell yn destun ymosodiad bron yn barhaus drwy gydol yr Oesoedd Canol, gyda'r Tywysog Cymreig Gruffydd ap Rhys yn cipio'r castell a'i ddatgymalu tua 1116, gan ysbeilio'r dref yn y broses. Cafodd y castell ei ailadeiladu a'i ddinistriro eto ym 1137, 1143 a 1195. Yn ystod yr ymladd a fu rhwng y Cymry a'r Saeson, dinistriwyd y castell eto yn 1215 a'i ailadeiladu yn 1223 pan roddwyd caniatâd ar gyfer wal y dref a murflychau, gan wneud Caerfyrddin un o'r trefi muriog canoloesol cyntaf yng Nghymru. Roedd y brif fynedfa i'r gogledd-orllewin yn wynebu'r dref ac yn cael ei hamddiffyn gan borthdy, mewn trefniant tebyg i'r hyn a welir heddiw.

Mae'n debyg mai'r castell oedd yn pennu cynllun y dref gyda'i strydoedd crwm yn awgrymu iddi dyfu'n organig wrth ei ochr, o gymharu â'r ffyrdd hir syth a welwyd i'r dwyrain a'r gorllewin a oedd yn debygol o fod wedi eu cynllunio. Yng nghanol y 13eg Ganrif, roedd pedair giât wedi'u gosod o amgylch amddiffynfeydd pridd a phren y dref. Disodlwyd y rhain gan waliau cerrig ar ôl 1223. Roedd y pedwar porth yn cynnwys Porth Wyneth (Y Porth Tywyll) ar y gyffordd â Heol Awst; Porth y Dwyrain ar y gyffordd â Heol y Brenin; Porth y Bont wedi'i gosod uwchben y bont ganoloesol a ddisodlwyd gan y bont ffordd bresennol; a Phorth y Dref a oedd yn arwain at ymyl y cei i'r de-orllewin. Roedd cyfres o leiniau bwrdais yn wynebu dwy farchnad, un y tu allan i'r porthdy yn lleoliad presennol Maes Nott, ac un arall o amgylch eglwys y Santes Fair a oedd ar safle Neuadd y Dref. Roedd gan y farchnad y tu allan i'r castell groes farchnad yn ei ganol yn ogystal â chyffion traed a rhigod. Llosgwyd Robert Ferrar, diwygiwr Protestannaidd a gododd ei lais yn erbyn Mari Tudur, yma yn yr 16eg Ganrif. Daeth y Brodyr Brodorol yn sefydledig yn y dref yn y 13eg Ganrif ac erbyn 1284 roedd ganddynt eu hadeiladau eu hunain yn Heol Awst, sydd bellach ar safle'r ganolfan siopa.

Roedd y Mynachlog â dau glwysty mor fawr ag unrhyw fynachlog blwyfol ym Mhrydain. Ym 1268, roedd Caerfyrddin Newydd wedi'i chyfyngu bron yn gyfan gwbl o fewn y dref gaerog yn cynnwys 118 o leiniau bwrdais, gyda 21 o leiniau ar Heol Awst, 12 ar Heol y Bont, 11 ar Heol y Cei a 6 ar Heol y Brenin, pob un ohonynt y tu allan i ddiogelwch yr amddiffynfeydd. Erbyn y 1340au ychwanegwyd tiroedd bwrdais newydd ar Heol y Brenin a Heol Spilman gyda lonydd croesi rhyngddynt. Mae siâp rheolaidd y rhain yn awgrymu mai ehangiad arfaethedig oedd hwn.

Ffynnodd y dref yn y 13eg Ganrif oherwydd yr hawliau a'r breintiau a roddwyd i'r dref gan Harri II ac yn ddiweddarach y Brenin John. Roedd gan y dref farchnad wythnosol, dwy ffair flynyddol, gyda lleiniau bwrdais yn rhifo 181 yn 1275 a 281 yn 1300. Ym 1353, cyhoeddwyd Caerfyrddin yn unig Borthladd Crai Cymru, sy'n dangos ei phwysigrwydd strategol yng Nghymru. Ysgubodd y pla du drwy'r dref rhwng 1347-1350 gan achosi i boblogaeth y dref ddirywio'n aruthrol yn ail hanner y 14eg Ganrif.

15fed – 16eg Ganrif

Ym 1415, cymeradwywyd grant i ymestyn muriau'r dref i gynnwys y lleiniau bwrdais hynny ar Heol y Brenin a Heol Spilman, er nad oeddent wedi'u hymestyn i'r rhai ar Heol Awst a gafodd eu huno â'r Mynachdy. Roedd Lôn Jackson i'r gogledd-ddwyrain yn gorwedd ar linell un o'r giataiau newydd.

Ar yr adeg hon, daeth y Castell yn gartref i lywodraeth frenhinol yn ne Cymru a chafodd ei atgyweirio a'i ymestyn i gynnwys Neuadd y Brenin a'r siambrau, Capel y Brenin, fflatiau'r Frenhines, Neuadd Siambrenaid, capel marchogion a swyddfa'r trysorlys. Cymerodd

Edmund Tudor, tad Harri VII, feddiant o'r castell yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, er i filwyr lorcaidd gipio'r castell yn 1456, gan garcharu Edmund a fu farw yn garcharor yma. Wedi'i gladdu yn y Mynachdy, symudwyd ei feddrod yn ddiweddarach ar ôl ei ddiddymu. Llosgwyd Robert Ferrars, diwygiwr Protestannaidd a siaradodd yn erbyn Mari Tudur, wrth y stanc o fewn y farchnad y tu allan i'r Castell ym 1555.

Sefydlwyd yr ysgol ramadeg rydd ym 1587 gan Elisabeth I a roddodd siarter corffori iddi, sydd bellach yn cael ei meddiannu gan yr hen ysbyty yn Heol y Prior. Cynyddwyd y gwaddol gan y Parchedig William Jones, a roddodd dŷ a gardd yn ymyl yr ysgoldy yn Heol y Prior. Mae'r ysgol wedi derbyn llawer o weinidogion nodedig, gan gynnwys John Jones, casglwr y Geirlyfr Groeg a Saesneg cyntaf, a Dr Abraham Rees, awdur y Gwyddoniadur.

Dirywiodd y porthladd tua diwedd y cyfnod canoloesol oherwydd siltio'r afon, gan achosi i longau mawr ddadlwytho i lawr yr afon. Pedair melin oedd yn



Cynllun tybiedig o'r dref yn y 15fed ganrif

gwasanaethu y dref ar y pryd. Er diddymu'r Priordy, y Mynachdy, rôl llywodraeth y cestyll wedi dod i ben a'r cynnydd mewn diwydiannu yn y de-ddwyrain, collodd Caerfyrddin ei statws fel tref fwyaf a phwysicaf Cymru, serch hynny parhaodd i ffynnu.

17fed – 18eg Ganrif

Ar ôl Deddfau'r Uno, daeth Caerfyrddin yn bencadlys barnwrol i Lys y Sesiwn Fawr yn ne-orllewin Cymru ac fe'i gwnaed yn gorfforaeth sirol gan Harri VIII, a gadarnhawyd gan Iago I ym 1604 o dan y dynodiad 'Sir o fwrdeistref Caerfyrddin'. Yn ystod y Rhyfel Cartref, fe'i hamddiffynnwyd gan gylch caerog helaeth, y mae rhannau ohoni wedi goroesi i'r gorllewin o'r dref ac sydd wedi'u nodi gan Archeoleg Cambria fel yr enghreifftiau gorau o amddiffynfeydd tref Brenhinol i oresi ym Mhrydain.

Ym 1648 dychwelodd Castell Caerfyrddin i'r Senedd a gorchmynnwyd iddo gael ei ddatgymalu gan Cromwell, gan barhau yn y cyflwr hwnnw hyd 1787 pan ymgorfforwyd y brif ran yn y carchar sirol newydd, a gwblhawyd ym 1792 gan John Nash a'i ddimchwel ym 1936. Rhoddwyd Siarter Bwrdeistref newydd ym mis Gorffennaf 1764 gan Siôr III, gan greu cyngor cyffredin i'w ethol gan y maer a'r bwrdeisiaid. Ar yr adeg hon, amaethyddiaeth a masnachau cysylltiedig gan gynnwys gweithgynhyrchu gwlân oedd prif weithgareddau'r dref. Er nad oedd i fod i ddilyn trefi diwydiannol eraill erioed, roedd yn ganolfan gynnar ar gyfer gweithgynhyrchu tunplat, gyda ffwrnais chwyth a melinau tun wedi'u hadeiladu yng nghanol y 18fed Ganrif ar safle'r hen Briordy, yn ogystal â ffoundri haearn a gynhyrchodd eitemau lu sy'n dal i'w gweld yn y dref, megis pyst a rheiliau. Symudodd y diwydiant arbennig hwn i Lanelli i raddau helaeth rhwng canol a diwedd y 18fed Ganrif.

Cynlluniwyd Neuadd y Dref bresennol ym 1767-77 gan Syr Robert Taylor i gymryd lle neuadd gynharach o'r 16eg Ganrif. Roedd marchnadle a marchnad ŷd yn gweithredu ar y lloriau is yn wynebu y Clos Mawr.



Troshaen Ffin Hanesyddol Tref Caerfyrddin 1886 (Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

Mae engrafiad gan Thomas Pennant dyddiedig 1781 yn dangos adeilion y castell gydag adeiladau o fewn ei furiau. Mae nifer o warysau unllawr i'w gweld ar ochr y cei yn ogystal â chyfres o dai deulawr yn dilyn Stryd y Bont bresennol.

19eg Ganrif

Ym 1860, roedd angen carchar yng Nghaerfyrddin a oedd o fewn cyrraedd hawdd i'r llys cyfagos ac adeiladwyd gorsaf heddlu deulawr a charchar rhwng waliau allanol a mewnol y castell, gan aros yn y defnydd hwn tan 1947. Mae'r carchar bellach yn gartref i'r Ganolfan Groeso, a elwir yn Dŷ'r Castell. Prynodd Cyngor Sir Caerfyrddin yr hen garchar ym 1925 ac adeiladu neuadd sir newydd ac amgueddfa a gwblhawyd ym 1955 yn unol â chynlluniau Syr Percy Thomas. Ar ddiwedd yr 20fed Ganrif, gwnaed rhannau o'r Castell, y tŵr sgwâr a'r tŵr de-orllewinol yn hygyrch, a chafodd nifer o adeiladau eu symud ar hyd Stryd y bont a Maes Nott i wella gwelededd y castell.

Mae llawer o lwyddiant y dref oherwydd ei phorthladd. Yn y 1720au, cofrestrwyd 57 o longau yng Nghaerfyrddin, ac roedd ei thunelledd ar y pryd ddwywaith cymaint â Chaerdydd. Adeiladwyd llongau hefyd yng nghyffiniau Canolfan y Cei heddiw. Cynyddodd masnach drwy'r porthladd yn y 1840au, cyn i Gaerfyrddin ymuno â rhwydwaith y rheilffordd. Roedd Caerfyrddin yn dal i gael ei hystyried yn dref borthladd yn y 1860au ond roedd yn cael ei chysgodi gan borthladdoedd arfordirol lle gallai llongau mwy ddocio. Ymwelodd y llong fasnachol olaf â phorthladd Caerfyrddin ym 1938. Er eu hadeiladu'n wreiddiol yn y 1550au, cafodd waliau'r cei sydd wedi goroesi eu hailadeiladu yn eu ffurf bresennol yn y 19eg Ganrif.



Troshaen Ffin Hanesyddol Tref Caerfyrddin 1905 (Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban)

Trigolion nodedig

Mae Caerfyrddin wedi gweld nifer o drigolion nodedig gan gynnwys y Parchedig Lewis Bailey, awdur y 'Practice of Piety'; yng Nghaerfyrddin y ganed Syr Walter D'Evereaux, Iarll cyntaf Essex, ac y mae wedi ei gladdu yn Eglwys San Pedr. Dywedir i Syr Richard Steele gyfansoddi ei ddrama 'The Conscious Lovers' yn ei gartref yn y dref ac mae hefyd wedi'i gladdu yn San Pedr. Roedd Elizabeth Phillips Hughes, hyrwyddwr addysg merched a phrifathro cyntaf Coleg Hyfforddi Merched Caergrawnt yn byw yn Heol Spilman. Chwaraeodd y dref ran fawr hefyd yn natblygiad Anghydfurfiaeth Gymreig, gyda llawer o bersonoliaethau blaenllaw o'r mudiad wedi'u geni yma, gan ddod yn gartref i'r llyfr masnach Cymreig ar ddiwedd y 19eg Ganrif. Mae Syr Rhys ap Thomas, un o brif gynghreiriaid Harri Tudur ac un o arwyr Brwydr Bosworth, a Charlotte Dalton, wyres Siôr III wedi eu claddu yn Eglwys San Pedr. Ym 1851 codwyd cerflun yn Sgwâr y Farchnad i'r Cadfridog Syr Nott, swyddog milwrol Cymreig a gyflwynwyd yn ei yrfa â'r Cleddyf Anrhydedd ac a arwisgwyd yn Farchog y Groes Fawr. Bu farw yng Nghaerfyrddin yn 1845 a chladdwyd ef yn San Pedr. Mae ei ddelw wedi'i gastio o ganon a gipiwyd ym Mrwydr Maharajpur ac a ariannwyd yn rhannol gan y Frenhines Victoria. Daeth y farchnad yn adnabyddus fel Maes Nott i gydnabod hyn.

Ceir cofeb arall yn sgwâr Neuadd y Dref, a godwyd ym 1905 er cof am y rheini a fu farw yn Rhyfel Boer.

Sefydlodd y pensaer John Nash ei bractis pensaernïol yng Nghaerfyrddin ar ôl methdaliad yn Llundain.



Placiau coffaol yn Heol y Bont Fach

Heddiw

Prin yw'r olion y tu allan i gastell y dref ganoloesol o ran strwythurau sy'n sefyll, er bod nifer o weddillion archeolegol o dan y ddaear ym mhob rhan o'r Ardal Gadwraeth, gan gynnwys claddgelloedd, archeoleg Rufeinig a dwy ran fer o wal ganoloesol y dref. Mae Eglwys San Pedr, yr adeilad hynaf yng Nghaerfyrddin, yn ôl pob sôn, yn tystio i bwysigrwydd Caerfyrddin yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'r rhwydwaith o lonydd, ffyrdd a marchnadoedd a dyfodd o amgylch y castell ac a ehangodd i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd y ffordd Rufeinig hanesyddol yn dal i'w gweld. Yn wahanol i Ardal Gadwraeth Heol Awst i'r gorllewin ac Ardal Gadwraeth Heol y Prior i'r dwyrain, tarfwyd ar gynllun y ffordd Rufeinig gynt gan y castell a chreodd gyfres o lwybrau troellog mwy organig o amgylch muriau a mwnt y castell.

Mae'r adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth yn dyddio'n bennaf o'r 19eg Ganrif, er bod adeiladau o'r 18fed Ganrif yn Heol y Cei, Heol y Bont a Heol y Brenin a thystiolaeth bod nifer o eiddo hŷn wedi'u hailwynebu yn ystod y cyfnod hwn. Heol y Cei sydd â'r stryd fwyaf cyflawn o dai o'r 18fed Ganrif yng Nghaerfyrddin gyda nifer o deuluoedd amlwg yn preswyllo yma, gan gynnwys yr artist a'r Eifftolegwr Ernest Jones, yr hynafiaethydd a'r curadur George Evans a'r cerddor Sidney Jones. Mae'n debygol, fodd bynnag, bod olion o fewn llawer o'r adeiladau hyn o ddatblygiad cynnar sydd wedi'u haddasu, eu hymestyn neu eu hailwynebu. Mae llawer o steil adeiladau'r 18fed Ganrif yn debyg i'r hyn a welwyd yn Llundain ar ddiwedd yr 17eg Ganrif. Bu mewnlenni ac ailddatblygu o'r 20fed Ganrif hefyd, wedi'i ganoli'n bennaf o amgylch Sgwâr Neuadd y Dref a Heol y Brenin. Digwyddodd y newid mwyaf arwyddocaol yng nghynllun

y ffordd yng nghanol yr 20fed Ganrif pan adeiladwyd y bont newydd, gan ledu Heol y Bont, a chael gwared ar nifer fawr o adeiladau'r cei. Adeiladwyd Heol Las ym 1805 gyda'r rhan fwyaf o'r adeiladau hyn yn dyddio o ddechrau i ganol y 19eg Ganrif.

Fel prif galon masnachol y dref, mae amrywiaeth eang o ddefnyddiau yn parhau. Yn y 18fed a'r 19eg Ganrif, roedd y rhain yn cynnwys tai coffi, tafarndai, warysau, preswylfeydd preifat, sefydliadau addysgol, swyddfeydd proffesiynol, adeiladau masnachol a chyhoeddus. Diwydiant oedd yn bennaf ar yr ymyl ddeheuol, gan elwa o fynediad i'r afon, gyda melin flawd gweithfeydd brics a phibellau yn ogystal â'r orsaf reilffordd gyda siediau nwyddau ac iardiau glo cysylltiedig.

Dengys mapiau'r AO o ddechrau'r 19eg Ganrif erddi cefn wedi'u gosod rhwng Heol y Brenin a Heol Spilman, yn ogystal ag i Heol y Cei a Heol y Bont Fach, sydd bellach bron yn gyfan gwbl wedi'u colli i leiniau caled.



Pot coffi pren mawr yn Rhif 12 Sgwâr y Guildhall, siop goffi a groser enwog o 1850

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Golygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth, y tu mewn iddi ac ohoni

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys ystyriaeth o olygfeydd i mewn i'r Ardal Gadwraeth, y tu mewn ac ohoni. Nodir y canlynol heb eithrio golygfannau eraill a gellir eu gweld ar y map a ganlyn.

Castell Caerfyrddin

Fel y gellir ei ddisgwyl efallai, mae waliau'r castell a neuadd y sir yn dominyddu nifer o olygfeydd drwy'r Ardal Gadwraeth oherwydd ei faint a'i leoliad ym mhwynt uchel y dref. Mae hyn yn ein hatgoffa o bwysigrwydd y castell yn natblygiad Caerfyrddin ac mae'n rhan arwyddocaol o gymeriad yr ardal. Mae nifer o'r golygfeydd hyn wedi'u peryglu i'r de lle mae datblygiad newydd a'r rhwydwaith ffyrdd wedi'u creu.

Cerflun o Syr William Nott

Yn sefyll ar safle'r hen groes farchnad ganoloesol, mae'r cerflun i Syr William Nott, y mae Maes Nott wedi'i enwi ar ei ôl, yn darparu tirnod i'r sgwâr, sy'n weladwy o sawl dynesfa ac yn gyrchfan a man cyrraedd clir ar gyfer y rhai sy'n symud drwy'r Ardal Gadwraeth.

Cofeb Ryfel y Boer

Saif y gofeb o fewn Sgwâr Neuadd y Dref ac mae'n dathlu'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth o'r gorllewin gan ddarparu cyrchfan i'r rhai sy'n dod i mewn i'r ardal.



Cofeb Ryfel y Boer



Maes Nott



Golygfeydd stryd

Mae gan yr Ardal Gadwraeth ddau batrwm stryd gwahanol sy'n newid y ffordd yr ydych yn edrych ar y strydlun. Mae Heol y Brenin a Heol Spilman yn cynnig golygfeydd hir a chymharol syth, di-dor, sy'n caniatáu i adeiladau gael eu darllen gyda'i gilydd. Mae hyn hefyd yn wir yn Heol y Frenhines, Heol y Cei a Heol y Bont er bod y strydoedd yn llawer byrrach. Fel y cyfryw, gallai newidiadau cronol bach a datblygiadau mawr ar hyd y ffyrdd hyn amharu ar y nodwedd hon. Mewn cymhariaeth, mae'r strydoedd sydd wedi datblygu o amgylch y castell yn fwy troellog gan greu cyfres o sgwariau caeedig, cyffyrdd, a gofodau y byddwch yn eu darganfod wrth i chi lywio rhyngddynt. Mae hyn yn creu cyfres o ddarnau gosod yn amgáu ac yn cyfyngu ar y golygfeydd tuag allan. Yn yr un modd ag ardaloedd eraill, gallai addasu neu symud adeiladau effeithio'n sylweddol ar nodweddion y manau hyn, er y gallai'r effaith fod yn gyfyngedig i'w gyd-destun uniongyrchol. Mae tŵr San Pedr yn dirnod amlwg o fewn y toeau o Heol Spilman ac yn darparu tirnod a mynedfa bwysig i'r Ardal Gadwraeth o'r dwyrain.

Wedi'i leoli y tu ôl i Heol y Brenin, mae Rhes Woods yn rhoi golygfa ddiddorol ac amrywiol o gefn yr eiddo a nodweddir gan olygfeydd byrrach a chipolwg rhwng adeiladau.

Nodir isod olygfeydd nodedig o'r strydoedd, heb eithrio rhai eraill:

Porth Tywyll i Sgwâr Neuadd y Dref
Sgwâr Neuadd y Dref i Maes Nott
Heol t Cei i Sgwâr Neuadd y Dref
Heol y Bont i Maes Nott
Heol y Brenin i San Pedr
Heol Spilman i San Pedr



Golygfa tua'r gorllewin ar hyd Heol y Frenhines



Golygfa i'r gogledd ar hyd Heol Spilman




Golygfa i'r gorllewin i Eglwys San Pedr

Y Dirwedd o'i Amgylch a manau agored

Oherwydd topograffeg yr ardal, mae nifer o fannau lle allwch weld y bryniau cyfagos i'r gogledd a'r de, yn ogystal ag Afon Tywi. Mae'r rhain yn agweddau pwysig y dylid eu cynnal. Oherwydd dwysedd llawer o'r ardal, mae'r rhain yn nodweddiadol ar strydoedd sy'n ffinio â'r Ardal Gadwraeth yn ogystal â golygfeydd lle mae bylchau yn y llinell adeiladu.

Golygfeydd terfynedig a chaeedig

Er bod llawer o'r golygfeydd yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u dominyddu gan ychydig o dramwyfeydd mawr, mae'r golygfeydd a welir i lawr strydoedd ochr hanesyddol, rhwng adeiladau ac ar hyd strydoedd cefn hefyd yn rhan annatod a phwysig o gymeriad yr ardal. Mae'r rhain yn amrywio o'r arcêd rhwng Heol Las a Heol y Felin i'r Lôn Jackson ganoloesol a'r lonydd cefn sy'n cysylltu Heol y Brenin a Heol Spilman. Mae'r rhain yn cynnig cipolwg ar y datblygiadau preswyl llai a'r iardiau gwasanaeth y tu ôl i'r adeiladau mwy ffurfiol sy'n wynebu'r strydoedd. Oherwydd eu defnydd anaml, gall ansawdd gweledol y golygfeydd hyn fod yn wael ond ni ddylid eu hanwybyddu wrth ystyried arwyddocâd a chwmpas i wella.



- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
- Y newid arfaethedig i'r ffiniau
- Ardal oedd sy'n cynnig ymdeimlad o ole
- Mannau gwyrdd cadarnhaol
- Toeau nodedig
- ★ Y prif dirdod / adeiladau allweddol
- Golygfeydd o'r dirwedd
- Golygfeydd o'r stryd
- Golygfeydd caeedig
- Golygfeydd terfynedig
- Golygfeydd allwyrddig

4.2 Prif dirnodau ac adeiladau allweddol

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin sydd â'r nifer fwyaf o adeiladau a strwythurau rhestredig yn y dref sy'n dyst i ansawdd uchel ei phensaernïaeth a'r cysylltiadau hanesyddol a'r datblygiad sy'n rhan hanfodol o'i chymeriad.

Adeiladau ac Adeileddau Rhestredig

Castell Caerfyrddin a Neuadd y Sir

Mae Castell Caerfyrddin yn adeilad rhestredig Gradd I ac yn Heneb Gofrestredig, sef gweddillion sylweddol y castell canoloesol, gyda'r porthdy a'r mwnt caerog i'w gweld o hyd. Mae neuadd y sir yn adeilad rhestredig Gradd II yn ei rhinwedd ei hun. Wedi'i ddylunio ym 1935 gan Syr Percy Thomas, pensaer Cymreig blaenllaw, fe ddisodlodd carchar Caerfyrddin ac mae'n enghraifft dda o adeilad cyhoeddus o ganol yr 20fed Ganrif. Mae'r waliau cynnal, sydd hefyd wedi'u rhestro, yn gymysgedd o waith carreg canoloesol, darnau a ailadeiladwyd yn ystod adeiladu'r carchar yn ogystal â neuadd y sir. Mae ei leoliad ar y pwynt uchaf yng nghanol y dref yn diffinio llawer o'r golygfeydd i, o ac o fewn yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig o'r ymylon deheuol a dwyreiniol. Mae ei le o fewn datblygiad y dref hefyd yn arwyddocaol.



Eglwys San Pedr

Yn ôl pob sôn, yr adeilad hynaf yng Nghaerfyrddin, mae San Pedr yn dyddio o'r 12fed Ganrif, er bod llawer o'r ffabrig a welir heddiw yn dyddio o'r 18fed a'r 19eg Ganrif. Yn rhestredig gradd I mae'n rhan bwysig o hanes y dref ac yn gartref i nifer o drigolion nodedig sydd wedi'u claddu yma. Wedi'i lleoli o fewn ynys sy'n ymuno â Heol Spilman a Heol y Brenin, mae ei safle gwyrdd a'i lleoliad yn nodi'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth, yn darparu cyrchfan glir a dyma'r lleoliad lle y dechreuodd yr hen dref Rufeinig ac wedi hynny lle sefydlwyd 'Hen Gaerfyrddin'. Mae ei thŵr hefyd yn dirnod o fewn y toeau sy'n weladwy o lawer o Heol Spilman.



Neuadd y Dref

Un o brif adeiladau dinesig Sioraidd Cymru a'r unig waith yng Nghymru gan Syr Robert Taylor a gynlluniodd neuadd y dref yn Salisbury ac a fu'n bensaer i Fanc Lloegr. Un o'i ddisgyblion oedd John Nash a gynlluniodd garchar Caerfyrddin yn ddiweddarach. Wedi'i restru'n Radd I, fe'i hadeiladwyd ym 1767 ac fe ddisodlodd neuadd urdd o ddiwedd yr 16eg Ganrif ac mae ar safle Eglwys Ganoloesol y Santes Fair. Yn hanesyddol mae'r adeilad ar y safle hwn wedi bod yn ganolbwynt i'r farchnad a oedd yn rhan o gynllun y dref o'r 12fed Ganrif. Mae ei statws a'i ansawdd pensaernïol yn creu tironod, cyrchfan ac yn diffinio un ochr i'r sgwâr.



Cofeb Nott

Cerflun o'r Uwchfrigadydd Syr William Nott, a grëwyd gan Edward Davis, cerflunydd a aned yng Nghaerfyrddin a greodd y cerflun ym 1849 yn dilyn cystadleuaeth. Mae'r cerflun yn efydd o ynnau a gipiwyd ym mrwydr Maharajpur ac a roddwyd gan Gwmni India'r Dwyrain. Wedi'i godi ym 1951 ar bedestal gan JL Collard mae'r cerflun yn rhedredig Gradd II ac mae'n sefyll o fewn y farchnad ganoloesol, a arferai gael ei feddiannu gan y groes ganoloesol a dynnwyd i lawr ym 1753. Mae'n darparu cefndir i'r adeiladau o'i gwmpas, yn gyrchfan ac yn cyfeirio golygfeydd tuag at ac o'r sgwâr.



Cofeb Rhyfel y Boer

Cofeb restredig gradd II a adeiladwyd ym 1905-6 i ddyluniadau gan EV Collier, yn cynnwys ffigwr marmor gwyn o filwr yn sefyll ar bedestal o dywodfaen a gwenithfaen gyda phlac gwenithfaen coch wedi'i arysgrifio oddi tano. Yn sefyll o fewn canol sgwâr y farchnad o flaen Neuadd y Dref mae'n strwythur amlwg sy'n ennyn golygfeydd trwy, allan ac i mewn i'r sgwâr ac yn gyrchfan ac yn gefndir i'r adeiladau o'i amgylch.



9-10 Y Clos Mawr

Wedi'i restru fel Banc Barclays, mae'r adeilad yn adeilad rhestredig Gradd II fel adeilad banc trawiadol o 1900 gan George Morgan & Son, pensaer lleol nodedig a thoreithiog a ddyluniodd oriel Myrddin hefyd. Mae'r drychiadau carreg Pennant, y parapet balwstrad, y paneli carreg addurnol a'r ffenestri bae ar y llawr cyntaf yn creu conglfaen trawiadol i'r sgwâr marchnad bwysig hon.



11 Y Clos Mawr

Wedi'i adeiladu ar ddechrau'r 1800au ac yn rhestredig Gradd II, roedd yr adeilad yn siop goffi a groser nodedig o 1850, pryd y gosodwyd y jwg coffi pren mawr sydd wedi goroesi. Mae ffenestri'r siopau wedi cadw peth o'r gwaith coed Sioraidd cynharach, er iddynt gael eu newid i raddau helaeth ar ddiwedd yr 20fed Ganrif. Yn floc cornel sylweddol, mae'n nodedig am ei ffryntiad brics ac mae'n diffinio'r olygfa o'r Porth Tywyll a'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth.



36 Heol Las a'r adeilad allanol cyfagos

Tŷ tref ac adeilad allanol o frics rhestredig Gradd II o ddechrau'r 19eg Ganrif, sydd bellach wedi'i baentio, gyda siop oddi tano. Mae'n creu grŵp nodedig gydag 11 Y Clos Mawr a chyffordd rhwng Marchnad Neuadd y Dref a Heol Las, gan ddathlu'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth.



Plume of Feathers

Tafarn o'r 19eg Ganrif sy'n dal yn cael ei defnyddio ac sydd wedi'i restru'n Radd II ac sy'n terfynu'r golygfeydd wrth gerdded i fyny o Heol y Cei, yn ogystal â rhan nodedig o'r strydlun i'r Santes Fair. Mae ei rendrad garw o amgylch yr agoriadau a'r cynllun ongllog yn ychwanegu at ei amlygrwydd.



Angel Vaults

Tybir ei fod yn dafarn o yn dyddio'n ôl i rhwng canol a diwedd y 19eg Ganrif sy'n nodi un ochr i Faes Nott ac yn gefndir i gofeb y Cadfridog Nott. Mae'n debyg bod yr estyniad i'r dwyrain wedi'i ychwanegu ar ddiwedd yr 20fed Ganrif. Mae'r adeilad, er ei fod yn debyg o ran cymeriad i'r adeiladau eraill yn yr Ardal Gadwraeth, wedi'i nodi gan ei leoliad sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r Sgwâr a lleoliad y castell.



5 Heol y Santes Fair

Wedi'i restru'n Radd II dan yr enw 'The Café on the Square', mae'n debygol ei fod yn adeilad o ddechrau'r 19eg Ganrif gyda ffryntiad masnachol gwydrog llawn o ddechrau'r 20fed Ganrif sy'n anarferol o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n darparu cornel amlwg i Heol y Santes Fair a rhan o Faes Nott.



2 Heol y Brenin

Wedi'i leoli ar gornel Heol y Frenhines, Maes Nott a Heol y Brenin, roedd yr adeilad yn cael ei adnabod fel The Emporium cyn 1883 pan gafodd ei ailenwi'n Cloth Hall, yn gartref i ddilladwyr a gwerthwyr hetiau bonheddig. Er ei fod wedi'i restru o dan yr enw hwn, cafodd yr adeilad rhestredig Gradd II ei ailfodelu yn y 1930au mewn arddull glasurol syml. Wedi'i lunio fel adeilad cornel, mae'n cau'r olygfa o Stryd y Brenin ac yn nodi'r fynedfa i Faes Nott. Mae'r ffasgia mawr, blaen siop modern a ffenestri uPVC yn effeithio ar ei gymeriad, ond mae'n parhau i fod yn ddarn amlwg o strydlun.



9-10 Heol y Brenin

Cyn swyddfa bost restredig Gradd II o 1906-7 mewn carreg nadd ar arddull Baróc Edwardaidd gan gynnwys meini clo addurniadol, amgylchynau ffenestri a chornis. Mae'n ychwanegiad trawiadol a sylweddol i'r strydlun.



14 Heol y Brenin

Wedi'i restru o dan 'Swyddfa Brofiant', mae'r adeilad yn dyddio o 1879, dyluniwyd gan GA Hutchings, Syrfêwr y Dref ar y pryd. Gydag wyneb carreg rwbel gyda manylion carreg nadd mewn arddull Gothig minimol, mae'r adeilad yn nodi cyfraniad pwysig i'r treflun, yn bennaf oherwydd ei ffasâd carreg.



59 Heol y Brenin

Banc Edwardaidd sylweddol sydd wedi'i osod yn amlwg ar flaen Sgwâr y Frenhines a'r fynedfa i Sgwâr y Brenin, mae Banc y National Westminster yn adeilad rhestredig Gradd II, a adeiladwyd ym 1903-4 ar gyfer y National Provincial Bank. Wedi'i adeiladu o frics coch gyda charreg Cefn melyn, mae'r drychiad blaen addurnol a'r toeau yn gwneud cyfraniad nodedig i ddrychiad y stryd.



37 Heol Spilman

Wedi'i adeiladu ym 1911 fel Neuadd Seiri Rhyddion bwrpasol, mae'r adeilad yn adeilad rhestredig Gradd II. Wedi'i gosod dros ddau lawr yn unig, mae'r fynedfa arw, pilastrau bandiog i'r ffenestri a pharapet toredig yn creu dyluniad llawn mynegiant sy'n sefyll allan yn y stryd.



9 Heol San Pedr

Tŷ tref a adeiladwyd tua 1760 ar gyfer Robert Morgan, a sefydlodd Ffwrnais Caerfyrddin ym 1748. Bellach yn llyfrgell gyhoeddus ac wedi'i rhestru'n Radd II, mae'r adeilad wedi'i osod yn ôl o'r stryd gyda rheiliau gwaith haearn sy'n cyd-fynd â'r tŷ. Dim ond y ffasâd sydd ar ôl, gyda'r adeilad wedi'i ailadeiladu ym 1972-3. Serch hynny, mae'r drychiad a'r rheiliau amlwg yn creu cyrchfan annodweddiadol ond golygus ar ddiwedd Heol y Brenin.



Y Ficerdy

Yn gysylltiedig â San Pedr, adeiladwyd y Ficerdy ym 1855-6, a thalwyd amdani gan y parchedig Latimer Jones, mewn arddull Gothig symlach. Yn nodedig fel enghraifft brin o ddyluniad gothig o fewn yr Ardal Gadwraeth, ond hefyd tŷ preifat o fewn ei dir ei hun sy'n anghyffredin o'i weld yn erbyn y tai tref a'r terasau a welir mewn mannau eraill.



Oriel Myrddin, Heol yr Eglwys

Yr ysgol gelf bwrpasol gyntaf yng Nghymru, sydd bellach yn oriel gelf, fe'i hadeiladwyd ym 1891-2 ar ran ehangach o Lôn y Llan sy'n wynebu San Pedr. Adeilad brics sylweddol mewn arddull y Dadeni modern, mae'r adeilad brics a charreg nadd yn diffinio diwedd Heol y Brenin a Heol Spilman a chyda San Pedr mae'n creu mynedfa drawiadol i'r Ardal Gadwraeth.



Theatr y Lyric, Heol y Brenin

Er ei bod wedi'i chuddio'n weddol dda ar y stryd, mae canopi gwydr trawiadol y theatr o'r 1930au a'r fynedfa gilfachog addurniadol yn ychwanegiad nodedig i Heol y Brenin. Roedd y theatr yn rhan o ailddatblygiad trefol i ddyluniad modernaidd sy'n cynnwys y swyddfeydd uwchben a siopau o'r naill ochr, sy'n ffurfio rhan sylweddol o'r bloc hwn.



Adeiladau Anrhestredig ac Adeileddau o bwys

Nid yw'r adeiladau a ganlyn wedi'u rhestru'n statudol ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, yn darparu tirnod pwysig neu'n rhan o dreftadaeth Caerfyrddin oherwydd arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol neu archeolegol, ac fe'u cydnabyddir fel asedau treftadaeth na ellir eu disodli. Mae llawer o'r rhain yn enghreifftiau da o ddatblygiadau o ddechrau i ganol yr 20fed Ganrif y mae eu cyfraniad i'r Ardal Gadwraeth hefyd o werth. Fel y cyfryw, cynigiwn eu cynnwys ar restr leol o adeiladau teilwng; ni fyddai hyn yn rhoi gwarchodaeth statudol i adeilad ac ni fyddai gwaith ar adeilad rhestredig lleol angen caniatâd adeilad rhestredig, ond byddai diddordeb arbennig yr adeilad yn ystyriaeth berthnasol yn y broses cais cynllunio.

2-3 Y Clos Mawr

Mae'n debyg iddo gael ei adeiladu yn gynnar i ganol yr 20fed Ganrif gyda motiffau Art Deco, mae'r ffenestri tridarn a'r cornis blaen siop a chorbelau yn enghraifft dda o ddyluniad cyd-destunol o'r 20fed Ganrif sy'n ychwanegu'n nodedig at y strydlun. Bellach yn gweithredu o dan yr un berchnogaeth â Rhif 1 Y Clos Mawr a 6-7 Heol y Neuadd, byddai adfer yr hen fynedfa a chynllun blaen siop a ystyriwyd yn ofalus yn helpu i gynyddu ei gyfraniad at y sgwâr.



12 Heol San Pedr

Tŷ cul anarferol y mae ei faint, ei ddrychiad talcen, bae llawr cyntaf a blaen siop tybiedig o ganol y 19eg Ganrif yn ei nodi ar y stryd. Saif yr adeilad ar gornel stryd ochr a oedd yn hanesyddol yn darparu mynediad i'r gwaith dŵr mwynol a leolir y tu ôl i Heol San Pedr. Er ei fod yn annodweddiadol o fewn drychiad y stryd, mae lefel uchel y deunydd hanesyddol sydd wedi goroesi a'i ddyluniad yn sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol.



6-11 Lôn Jackson

Dyddiad anhysbys, ond yn sicr mewn bodolaeth ar ddechrau'r 19eg Ganrif, mae'r adeilad deulawr diymhongar hwn gyda drychiad carreg rwbel ac agoriadau llawr gwaelod â phen bwa yn gorwedd ar Lôn Jackson, lôn ganoloesol a gynhwyswyd ym muriau'r ddinas ar ôl 1413 pan ehangodd y dref. Mae ei ddyluniad yn awgrymu, yn wahanol i'r eiddo masnachol a phreswyl sy'n dominyddu'r Ardal Gadwraeth, y gallai fod wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi defnyddiau eraill. Adeilad syml ond eithriad amlwg ac fel y cyfryw gallai adrodd stori ddiddorol am ddatblygiad y dref.



17-18 Heol y Brenin

Adeilad tybiedig o ganol yr 20fed Ganrif, wedi'i godi'n amlwg i ddrychiad y stryd ac yn fwy o led na'i gymdogion. Mae'r adeilad yn enghraifft dda o ailddatblygu trefol o ganol yr 20fed Ganrif ac yn ychwanegiad llawn cymeriad i'r stryd. Pan fydd cyfle, byddai ailgynllunio'r fynedfa ganolog o fudd mawr i'r stryd a'r adeilad.



39-41 Heol y Brenin

Ar hyn o bryd mewn cyflwr gwael, mae'r adeilad hwn o ganol yr 20fed Ganrif wedi cadw llawer o'i swyn, gan gynnwys cerfwedd carreg addurniadol, ffenestri llawr cyntaf ffrâm fetel a cholofnau canolog. Mae'r ffasâd a fewnosodwyd wedi cael effaith negyddol ar ei gymeriad ac mae ei ddiffyg defnydd wedi achosi dirywiad cyffredinol yn ei olwg. Serch hynny, mae'n parhau i fod yn enghraifft ddiddorol a da o ddyluniad yr 20fed Ganrif yn y dref.



Blaen siopau o bwys

Fel prif graidd manwerthu'r dref, mae blaenau siopau yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r Ardal Gadwraeth ac yn cynrychioli cyfnod pwysig o ddatblygiad yn y 18fed a'r 19eg Ganrif pan welodd y rhan hon o Gaerfyrddin dwf sylweddol. Mae'r enghreifftiau sy'n weddill o flaenau siopau hanesyddol yn hynod bwysig a dylid eu cadw. Gellir rhagdybio y gallai ffabrig hanesyddol pellach hefyd gael ei guddio gan wynebfyrddau mawr neu ei orchuddio â deunyddiau cyfoes. Dylid ystyried ardaloedd rhannol o ffabrig hefyd yn werthfawr a dylid annog ailosod elfennau coll. Mae'r blaenau siopau a ganlyn wedi'u nodi fel y rhai sy'n cadw'r cyfan neu ran o'u blaen siop o'r 19eg Ganrif ac felly'n ychwanegu cymeriad at y strydlun. Mae rhai blaenau siopau o ddechrau'r 20fed Ganrif hefyd wedi'u cynnwys oherwydd eu hansawdd pensaernïol.

- 9 Heol San Pedr (heb ei restru)
- 7b Heol y Brenin (heb ei restru)
- 15 Heol y Brenin
- 16 Heol y Brenin
- 19 Heol y Brenin
- 20a Heol y Brenin (heb ei restru)
- 20b Heol y Brenin
- 23 Heol y Brenin (heb ei restru)
- 29 Heol y Brenin
- 33 Heol y Brenin
- 35 Heol y Brenin
- 37 Heol y Brenin (heb ei restru)
- 45 Heol y Brenin



45 Heol y Brenin



23 Heol y Bont

- 51 Heol y Brenin
- 53a Heol y Brenin (heb ei restru)
- 16 Maes Nott (heb ei restru)
- 4 Maes Nott (heb ei restru)
- 3 Maes Nott (heb ei restru)
- 1b Maes Nott
- 1a Maes Nott (heb ei restru)
- 1 Heol y Santes Fair
- 2 Heol y Santes Fair
- 5 Heol y Santes Fair
- 16 Heol y Bont (heb ei restru)
- 17 Heol y Bont
- 23 Heol y Bont
- 1 Heol Las
- 36 Heol Las
- Arcêd rhwng Heol y Felin a Heol Las



16 Heol y Brenin



16 Heol y Bont

4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Mae ardaloedd cyfyngedig o fannau gwyrdd o fewn yr Ardal Gadwraeth, ond lle maent yn bodoli, maent yn darparu bylchau pwysig i ddwysedd uchel yr adeiladau i'r stryd. Mae sawl ardal werdd yn yr Ardal Gadwraeth sy'n ychwanegu'n fawr at ei chymeriad ac yn cynnig bylchau pwysig i ddwysedd uchel yr adeiladau ar y stryd, yn ogystal â darparu lle i ymlacio, myfyrio a gwerthfawrogi'r hyn sydd o'ch cwmpas. Maent hefyd yn cyflwyno buddion llesiant i'r rheini sy'n eu defnyddio, ac oherwydd hyn, yn meddu ar werth diwylliannol a chymunedol. Mae'r nodweddion a'r mannau allweddol yn cynnwys:

Sgwâr Jackson

Castell Caerfyrddin

Eglwys San Pedr

Green spaces are shown on the following map.




Mynwent Eglwys San Pedr



Sgwâr Jackson



Castell Caerfyrddin



- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
- Y newid arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd
- Gerddi preifat / led-breifat
- Coed
- Grŵp o goed
- ★ Gorchymyn Cadw Coed (TPO)

5.0 Cymeriad a Gwedd


Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad a gwedd yr ardal fel ag yr oedd ar adeg yr astudiaeth hon. Mae dwy ran amlwg i'r Ardal Gadwraeth: y strydoedd yn union o amgylch y castell a oedd yn rhan o gynllun canoloesol y dref, a'r rhai i'r dwyrain a oedd yn rhan o'r cynllun i ehangu'r dref hyd at Eglwys San Pedr. Er bod llawer o gysondeb o ran dylunio pensaernïol, mae'r patrymau gwahanol o osodiad strydoedd yn newid y ffordd y mae pobl yn symud drwy'r ardal oedd hyn ac yn eu gweld ac felly'n creu dwy nodwedd wahanol. Cynigir felly y dylid diffinio dwy ardal gymeriad sy'n ymateb i'r newidiadau hyn, gan helpu i gadw, rheoli a gwella'r gwahaniaethau yn ogystal â'r tebygrwydd rhyngddynt.

5.1 Nodweddion Treflun

Ardal Cymeriad Castell Caerfyrddin

Yn wahanol i'r rhwydwaith strydoedd llinellol a welir ledled llawer o Gaerfyrddin, mae'r ardal hon o'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys llwybrau mwy troellog o amgylch dau sgwâr marchnad a dyfodd yn organig o ddatblygiad clôs canoloesol y Castell. Yr eithriad i hyn yw Heol y Cei a oedd yn hanesyddol yn darparu mynediad i ymyl y cei, a'r A4242 a dorrodd drwy gynllun hanesyddol y dref i'r de i greu ffordd osgoi i bont newydd Caerfyrddin. Mae sgwâr y ddau dref yn darparu cyrchfannau ac eiliadau o seibiant lle gall pobl ystyried eu hamgylchedd, a nodweddir gan olygfeydd ar y pedair ochr sy'n amgáu'r ardal oedd hyn, ond gyda chipolwg ar y strydoedd y tu hwnt. Mae hyn yn creu darnau gosodedig o bensaerniaeth y gellir eu gweld fel gweddoluniau cyfan, yn wahanol i'r strydoedd hirfain hwy lle mae golygfeydd ar draws wynebau'r adeilad yn hytrach nag yn wynebu blaen.

Lle mae adeiladau wedi'u hailddatblygu nad ydynt yn ymateb i nodweddion y manau hyn, mae'r rhain yn amlwg ac yn amharu ar y gofodau hyn. Mae cyfraniad coed yn nodwedd bwysig sy'n helpu i liniaru rhywfaint o ddwysedd trefol y manau hyn. Dylai datblygiad yn yr ardal oedd hyn ystyried eu heffaith ar y sgwâr, yn ogystal â'r Ardal Gadwraeth yn gyffredinol.



Mae'r cynllun hwn hefyd yn creu golygfeydd a chyffyrdd mwy caeedig. Fel y cyfryw, mae golygfeydd yn aml yn cael eu diffinio gan yr adeiladau sydd ar ddiwedd strydoedd. Yr eithriad i hyn yw pan fyddwch yn teithio tua'r de, ac mae'r dopograffeg yn darparu golygfeydd eang o'r dirwedd y tu hwnt. Oherwydd hyn, rydych yn newid yn barhaus rhwng teimlad o amgaead a natur agored sy'n rhan o swyn yr ardal. Mae'r amrywiaeth hwn yn cael ei gynnal gan uchder amrywiol y lloriau, y toeau ac arddull pensaernïol a manylion yr adeiladau. Mae Heol y Cei yn fwy cyson ei steil, gan ei bod yn un o strydoedd preswyl mwyaf cyflawn y 18fed Ganrif yn y dref.

Mae yna nifer o lwybrau hanesyddol a ddarparodd doriadau trwodd rhwng strydoedd. Mae'r arcêd rhwng Heol y Felin a Heol Las yn llawn cymeriad, tra bod yr arcêd rhwng Heol Las a Heol y Cei mewn cyflwr llawer gwaeth. Gall y rhain gael eu hanwybyddu'n aml, ond ni ddylid diystyru eu heffaith ar olygfeydd a'r ffordd y mae pobl yn symud drwy'r Ardal Gadwraeth.

Y Porth Tywyll yw'r prif borth i'r Ardal Gadwraeth o'r dwyrain gyda golygfeydd tuag at y Clos Mawr. Mae'r adeilad Georgaidd â brics ar gornel Heol Las yn cyfrannu at gryfder y fynedfa hon. Y Porth Tywyll yw'r prif borth i'r Ardal Gadwraeth o'r dwyrain gyda golygfeydd tuag at y Clos Mawr a'r adeilad Sioraidd ag wyneb brics ar gornel Heol Las sy'n cyfrannu at gryfder y fynedfa hon. Mewn cyferbyniad, mae'r mynedfeydd o'r de o Heol Las, Heol y Cei, Heol y Bont a Rhiw'r Castell yn llawer gwaeth, ac ar hyn o bryd wedi'u dominyddu gan draffig ffordd, drychiadau gwag a waliau terfyn uchel a grëwyd pan adeiladwyd y ffordd. Mae datblygiad cyfoes y tu allan i'r Ardal Gadwraeth i'r gogledd o'r Porth Tywyll hefyd yn effeithio'n negyddol ar y fynedfa i'r ardal hon fan hyn.

Yn hanesyddol byddai adeiladau wedi wynebu ymyl y ffordd, gan greu strydlun sydd bellach wedi'i gollu. Wrth i chi deithio o gwmpas Rhiw'r Castell, mae golygfeydd i mewn i'r Mwnt yn rhoi cipolwg i chi o'r castell a allai fod yn foment ddiddorol a chadarnhaol, ond sy'n cael ei ddiffinio ar hyn o bryd gan geir wedi parcio, biniau a dodrefn cyhoeddus gwael. Mae adain gefn Swyddfeydd y Cyngor a adeiladwyd y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth hefyd wedi cael effaith negyddol ar olygfeydd allan o'r Ardal Gadwraeth o'r fan hon oherwydd ei uchder a'i arddull bensaernïol annodweddiadol.

Mae'r ffaith bod llawer o'r ardal hon bellach yn barth cerddwyr wedi osgoi effaith gan draffig ac arwyddion cysylltiedig a dodrefn parth cyhoeddus, ond lle mae traffig yn cael ei sianelu o amgylch Heol Las ac ar draws y ffin ddeheuol mae hyn wedi effeithio'n negyddol ar gymeriad gweledol y mannau hyn. Mae parcio ar y stryd i Heol Las, llawr caled a garejys i Heol y Bont Fach ac adeiladu'r orsaf fysiau yn cyfrannu at y dirywiad hwn. Gellid gwella'r gofodau hyn yn sylweddol er budd ehangach yr Ardal Gadwraeth.

Ardal Cymeriad Heol y Brenin a Heol Spilman

Nodwyd Heol y Brenin, Heol Spilman a Rhes Wood fel rhan o gynllun i ehangu'r dref Ganoloesol, mewn ymateb i gynllun y ffordd Rufeinig gynt. O'r herwydd maent yn fwy llinol gydag adeiladau fel arfer wedi'u gosod ar ymyl y stryd. Mae topograffeg yr ardal yn gymharol wastad sy'n creu ymdeimlad o amgáu i'r llwybrau hyn, wedi'i orliwio gan y dwysedd trefol uchel a'r golygfeydd hir syth.



Heol y Cei



Mynedfa ddeheuol i Heol Las



Y Mwnt

Mae cipolwg o olygfeydd i'r dirwedd i'r de ac ar hyd strydoedd ymyl sy'n cysylltu'r blociau hyn â'i gilydd yn torri'r symudiad hwn ac yn cynnig eiliadau o saib. Mae Heol yr Eglwys a San Pedr yn eithriad amlwg i hyn, wedi'u canoli o amgylch Eglwys San Pedr sydd o fewn ynys wedi'i thirlunio ac sy'n agor golygfeydd ehangach mewn modd tebyg i'r sgwariau yn ardal gymeriad Castell Caerfyrddin tra'n dathlu'r fynedfa ddwyreiniol i'r Ardal Gadwraeth.

I'r gorllewin mae'r gyffordd rhwng Heol y Brenin a Maes Nott hefyd yn gryf, gydag adeiladau cornel wedi'u dylunio'n fwiadol ac Adeilad NatWest yn nodi'r porth hwn. Mae hynny i Heol Spilman yn wannach oherwydd y crynhoad o draffig ar y pwynt hwn a thir trefol caled. Gan symud i'r gogledd-ddwyrain ar hyd Heol Spilman, mae tŵr San Pedr yn dirnod parhaus yn y toeau tra bod yr olygfa orllewinol wedi'i hamgáu gan Neuadd y Sir.

Er mai golygfeydd llinol a geir yn bennaf, ceir golygfeydd trwy a rhwng adeiladau, yn ogystal â thu ôl i adeiladau o Res Wood, sydd hefyd yn cyfrannu at y cymeriad ac yn rhoi cipolwg ar gynllun hanesyddol yr ardal hon gynt. Gall y rhain gael eu hanwybyddu'n aml, ond ni ddylid diystyru eu heffaith ar olygfeydd drwy'r Ardal Gadwraeth. Tybir bod y lonydd cefn rhwng Heol Spilman a Heol y Brenin yn rhan o gynllunio tref cynnar yr ardal hon, er eu bod mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd, gan eu hannog i beidio â'u defnyddio ymhellach a chyfrannu at eu dirywiad. Mae'r rhai i Lôn Jackson yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn gydag arwyddion crog a ffenestri siopau yn annog pobl i archwilio'r lôn ganoloesol hon.

Mae'r adeiladau'n amrywio o ddechrau'r 18fed Ganrif i ddiwedd yr 20fed Ganrif ac o'r herwydd yn dod ag amrywiaeth nid yn unig o ran arddull a manylion pensaernïol, ond o ran perthnasedd, toeau ac uchder lloriau. Mae'r llinell adeiladu hefyd yn amrywio, gyda gweddoluniau cribog, adeiladau wedi'u gosod yn ôl o ymyl y stryd, arwyddion crog a baeau ymestynnol yn darparu amrywiaeth mawr i'r strydlun sy'n gwahodd archwilio a symud trwodd. Mae hwn yn fwyaf amlwg i Heol y Brenin fel prif lwybr siopa ond gellir ei weld hefyd i raddau llai i Heol Spilman. Mae mwy o gysondeb yn Heol San Pedr, sy'n dai teras deulawr yn bennaf ac felly mae'n cynnig seibiant i'w groesawu rhwng y ddwy stryd hyn. Mae nifer o ffenestri dormer wedi'u hychwanegu at doeau Heol y Brenin. Lle mae'r rhain o ansawdd dylunio uchel gan ddefnyddio deunyddiau a manylion traddodiadol, mae'r rhain yn ffitio'n llwyddiannus i'r toeau. Lle mae'r rhain o raddfa neu ddyluniad amhriodol, neu wedi'u hintegreiddio i ardaloedd lle mae mwy o gysondeb, gall y rhain amharu. Lle mae'r rhain o raddfa neu ddyluniad amhriodol, gallant amharu.

Mae gan Rhes Wood deimlad o lwybr eilaidd, a ddiffinnir yn bennaf gan gefn y lleiniau i Heol y Brenin a chyfres o leiniau caled ac iardiau gwasanaethu cefn. Mae rhai tai wedi'u hymgorffori i linell y stryd, ond mae hyn yn groes i'r hyn sydd o'i amgylch. Mae Lôn Jackson yn unigryw fel ennyd o fan gwyrdd o fewn yr Ardal Gadwraeth mewn ardal drefol ddwys fel arall. Mae datblygiadau manwerthu'r 20fed Ganrif i'r gorllewin o hyn wedi effeithio ar ei osodiad ac wedi lleihau ei gyfraniad posibl i'r ardal.



Heol San Pedr



Rhes Wood

5.2 Deunyddiau adeiladu

Mae'r delweddau a'r rhestr ganlynol yn rhoi enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddir yn yr Ardal Gadwraeth sydd naill ai'n gwella neu'n gwarchod nodweddion yr ardal.

I adeiladau tirnod mwy o faint

Carreg rwbel

Carreg clogwyn

Brics coch

Carreg nadd – manylion a nadd

Stwco (haenog a heb haenau)

Deunyddiau cyffredin

Rendrad wedi'i beintio

Plastr garw

Teils a mosaigau i'r trothwyon

Gorchudd to llechi

Gwaith plwm

Gwaith coed wedi'i baentio

Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw


Blaenau siopau pren

Triniaeth terfyn

Carreg rwbel haenog

(Tywodfaen Pennant ar y cyfan)

Gwaith haearn bwrw / haearn gyr



5.3 Uchder adeiladau a pherthnasoedd â lleiniau

Mae adeiladau fel arfer yn 2-3 llawr o uchder ond gydag uchder lloriau amrywiol sy'n creu toeau amrywiol. Ceir rhai enghreifftiau o adeiladau 4 llawr, ond yn gyffredinol nid yw'r rhain yn taflu cysgod dros eu hamgylchoedd oherwydd eu lleoliad neu oherwydd bod y lloriau wedi gostwng. Mae Theatr y Lyric yn amlwg yn uwch na'r hyn sydd o'i chwmpas, ac mae'r adeilad cornel isaf i Heol y Frenhines a Heol y Brenin yn pwysleisio hynny. Mae hyn wedi effeithio ar olygfeydd o Faes Nott wrth deithio i Heol y Brenin ac o Heol Spilman.

Mae'r Castell a Neuadd y Sir yn eithriadau i'r uchod, gan eu bod yn strwythurau mawr mewn lleoliad amlwg, yn enwedig o edrych arnynt o Heol y Bont a Rhiw'r Castell. Mae'r dwysedd uchel strydoedd eraill yn cuddio llawer o'r golygfeydd yn ôl i'r castell o leoliadau eraill yn yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r Ardal Gadwraeth wedi datblygu'n bennaf o amgylch blociau trefol gyda ffyrntiadau ar bob ochr ac, yn hanesyddol, gerddi i'r craidd mewnol. Yr unig achlysur y byddwch yn edrych ar y drychiadau cefn yw yn Rhes Wood. Mae'r drychiadau hyn yn darparu llawer mwy o amrywiaeth gydag estyniadau ac addasiadau i loriau unllawr yn ogystal â màs a ffurf gwahanol. Mae nifer o ddatblygiadau cyfoes wedi'u creu yn wynebu Rhes Wood rhwng tramwyfeydd a llwybrau mynediad i ddrychiadau cefn adeiladau i Heol y Brenin. Mae'r rhain ychydig yn wahanol i'r hyn sydd o'u cwmpas, sef rhesi byr o derasau sy'n annodweddiadol i'r Ardal Gadwraeth.

Mae'r adeiladau wedi'u lleoli'n uniongyrchol ar ymyl y stryd gydag eithriadau achlysurol megis yn Llyfrgell Caerfyrddin a 10 Stryd y Cei sydd wedi'u gosod yn ôl y tu ôl i iard, gyda rheiliau metel ar ymyl y stryd, 1-2 Heol

Spilman sydd â gerddi blaen a 3-4 sydd â mynedfa â ramp wedi'i gosod y tu ôl i wal grwm isel.

Mae'r Ficerdy hefyd yn eithriad nodedig sydd wedi'i leoli ar ei dir ei hun i ffwrdd o ymyl y stryd. Yn Heol y Brenin, mae gweddlluniau cribog, baeau ymestynnol, mynedfeydd cilfachog a chamu yn ôl o linell y stryd yn creu llawer iawn o fynegiad i olygfeydd y strydoedd.

Mae Maes Nott a'r Clos Mawr wedi'u neilltuo i gerddwyr yn rhannol, gan ganiatáu i'r rhai sy'n symud drwy'r Ardal Gadwraeth stopio a chael golygfeydd panoramig ehangach o'r adeiladau yma, gan greu darnau gosod yn eu hanfod, er bod llawer iawn o amrywiaeth yn y stryd sy'n dangos y cyfnodau niferus o ddatblygu sydd wedi diffinio'r rhan hon o'r dref. Mae'r cymysgedd o fasnachau annibynnol ym Maes Nott hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr amrywiaeth hwn.

Nid oes unrhyw ymylon gwyrdd i'r stryd gydag ambell ardal o wyrddni wedi'u gosod y tu ôl i waliau terfyn carreg sy'n cadw ymyl caled i'r stryd. Yr unig eithriad i hyn yw Lôn Jackson sy'n agor y rhan hon o Res Wood, er ei bod yn gymharol gudd o'r prif dramwyfeydd. Er ei fod yn weddol fodern (diwedd yr 20fed Ganrif), yn deillio o chwalu adeiladau ar flaen Rhes Wood.

Mae'r lleiniau bwrtais a arferai ddiffinio'r ardal hon bellach wedi'u colli oherwydd uniad hanesyddol, er bod rhai lleiniau culach, 2 fae o led yn nodweddiadol, yn dal i'w gweld sy'n cadw rhywfaint o'r cymeriad coll hwn. Wrth i adeiladau gael eu hailddatblygu mae lled y baeau wedi cynyddu a bellach mae llawer iawn o amrywiaeth ledled yr ardal. Cyflawnwyd hyn yn fwyaf llwyddiannus lle mae'r drychiad wedi'i dorri i lawr i ymateb i'r lled bae culach blaenorol. Lle mae drychiadau hirach heb fynegiad, mae'r rhain yn amlwg yn amharu.



Theatr y Lyric o Faes Nott



Adeiladau yn Heol Spilman

5.4 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol

I adeiladau mwy o faint

Conglfeini pendant

Manylion cerrig cerfiedig

Enwau a rhifau cerfiedig ar adeiladau

Cornis deintell

Parapetau wedi'u codi - plaen a balwstrad

Lloriau gwaelod wedi gerwino

Manylion cyson trwy gydol yr Ardal Gadwraeth

Rendradau wedi'u paentio'n lliwgar

Byrddau wyneb addurniadol

Adeiladau cornel

Ffenestri bae pren

Ffenestri codi pren, yn nodweddiadol 1 dros 1, a 6 dros 1, a 6 dros 6 ac 8 dros 8

Bandiau cerrig – plaen ac addurniadol

Drysau pren panelog

Canopiâu drws

Fframiau ffenestri pendant yn aml gyda meini clo

Mynedfeydd cilfachog

Toeau ar ongl

Simneiau

Walïau terfyn cerrig rwbel

Rheilïau a gatiâu addurniadol

Llusernau traddodiadol

Arwyddion crog

I adeiladau'r 20fed Ganrif

Manylion cerrig cerfiedig

Ffenestri metel

Gweddllunïau cymalog

Toeau parapet





5.5 Parth cyhoeddus; arwynebau, celfi stryd ac arwyddion

Mae amrywiaeth enfawr i ddeunyddiau arwyneb yn yr Ardal Gadwraeth, gyda chymysgedd o darmac, concrit a phafinau carreg a slabiau, wedi'u gosod mewn patrymau rheolaidd ac afreolaidd. O fewn ardaloedd i gerddwyr, mae'r gwahaniaeth rhwng trothwyon uniongyrchol yr adeiladau, gosodiad yr henebion a sgwâr y farchnad ganolog wedi'i ddiffinio trwy osodiadau a meintiau gwahanol o balmentydd sy'n torri i lawr ar raddfa'r ardal. Heblaw am Heol y Cei, mae cysondeb ar hyd strydoedd unigol, er bod pob un yn wahanol i'r nesaf, gan greu gwahaniaeth a datgysylltu rhyngddynt. Ar y cyfan mae slabiau patrymog dyrchafedig wedi'u gosod o fewn darnau isel o'r palmant i ddarparu mynediad rhwng strydoedd. Mae'r rhain yn arbennig o amlwg pan gânt eu hintegreiddio i sets cerrig.

Mae'r castell wedi mynd trwy gyfres o brosiectau cadwraeth a gwella yn y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys cyntedd newydd y tu allan i dyrau Porth y Castell sy'n integreiddio caffi a seddi a grisiau rhwng y Cyntedd a'r Mwnt sy'n ail-greu'r llwybr o Faes Nott i Heol Spilman i gwblhau mynediad llawn o amgylch y Castell. Mae hyn wedi creu lleoliad deniadol ac ystyriol i'r castell, a fyddai'n elwa o integreiddio pellach y tu allan i'w ffiniau, yn enwedig i'r de.

Mae San Pedr wedi'i lleoli o fewn ynys dirwedd sy'n cynnig seibiant oddi wrth y tirlunio caled ar draws y cyfan yn yr Ardal Gadwraeth. Mae cyfres o lwybrau mewn slabiau cerrig yn ogystal â nifer o goed unigol a grwpiau arwyddocaol o goed yn cyfrannu at greu lleoliad cadarnhaol ar gyfer yr adeilad pwysig hwn.

Mae nodweddion ymyl ffordd wedi'u cyfyngu i fewnosodiadau cyfoes fel arwyddion ffyrdd, goleuadau traffig a bolardiau sy'n atal ceir rhag gyrru ar balmentydd. Disgwylir bod angen lefel o seilwaith ar gyfer diogelwch a llywio ac nid yw'r lefel bresennol yn gyffredinol yn cael effaith andwyol, er bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i osod eitemau pellach fel nad ydynt yn cuddio adeiladau neu olygfeydd allweddol. Y ddau eithriad i hyn yw'r arwyddion parth cerddwyr sy'n effeithio ar leoliad cofeb y Cadfridog Nott, a'r arwyddion ffyrdd lluosog a leilir wrth y fynedfa i Eglwys San Pedr.

Mae parcio ar y stryd wedi'i integreiddio i Heol Las a Heol y Bont Fach sy'n torri ar draws y strydlun ac yn cynyddu goruchafiaeth y rhwydwaith traffig yn y manau hyn.


Mae meinciau wedi'u gosod o amgylch sgwariau'r farchnad, San Pedr, Sgwâr Jackson, a'r Castell fel manau gorffwys a myfyrdod. Mae yna hefyd nifer o feinciau ar hyd Heol y Brenin lle mae'r palmant yn lledu. Er mai mewnosodiadau cymharol fach yw'r rhain, maent yn galluogi pobl i stopio ac ystyried y dreftadaeth adeiledig o'u cwmpas. Mae dyluniadau'n amrywio rhwng metel a phren o wahanol batrymau. Yn yr un modd ag arwynebau caled, byddai cysondeb o ran ymagwedd pan fydd angen atgyweiriadau, neu eitemau newydd yn cael eu hadnewyddu, o fudd mawr i leoliad yr Ardal Gadwraeth ac yn helpu i gryfhau cysylltiadau hanesyddol rhwng y strydoedd. Mae nifer o oleuadau stryd traddodiadol a llusernau wedi'u gosod o amgylch y sgwariau sy'n ychwanegiad cadarnhaol ac yn creu naws groesawgar gyda'r nos amgylchedd. Yn ogystal, mae olion o byst haearn sydd wedi'u seilio ar batrwm gwreiddiol ar gyfer ffowndri Caerfyrddin.



Llusernau traddodiadol ym Maes Nott



Palmantau cerrig a tharmac yn Heol y Cei



- Ffinau'r Ardal Gadwaeth Tref Caerfyrddin
- Y newid arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau i gerddwyr
- Blaen siopau hanesyddol
- ★ Nodwedd hanesyddol o'r treflun
- ▲ Mosaigau
- Celfi stryd
- Tŵr

5.6 Deunyddiau a thriniaethau terfyn

Mae'r adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth Arbennig yn nodweddiadol yn ffurfio ffiniau i ymyl y stryd ac erbyn hyn mae enghreifftiau cyfyngedig o ffiniau hanesyddol i'w gweld o'r parth cyhoeddus. Gosodwyd bolardiau ar Heol y Brenin, ar gyffwrdd ac i amlinellu mynedfa'r castell. Mae'r rhain yn gyson o ran arddull, ond os yw'r palmentydd yn gul, gallant gyfyngu ar symudiadau. Mae Rhos Wood yn cynnig rhyw syniad o'r waliau terfyn a fyddai wedi gwahanu'r lleiniau bwrdais y tu ôl i'r adeiladau, fodd bynnag, mae'r rhain bron i gyd wedi'u colli neu wedi'u disodli gan ddeunyddiau megis brics neu floc. Mae cyfres o giataiu metel cyfoes, ffensys diogelwch a ffensys pren hefyd i'w gweld ac maent yn anghydnaws â'r Ardal Gadwraeth, sydd yn eu tro yn amharu ar ddrychiad y stryd. Lôn Jackson yw'r unig enghraifft lle defnyddiwyd plannu i ddiffinio ymyl y stryd ac felly mae'n ymddangos braidd yn anghydnaws.

Mae cyflwyno lloriau caled ar gorneli a thu ôl i eiddo hefyd wedi cael gwared ar driniaethau ffiniau hanesyddol, sy'n amlwg yn Rhos Wood, Rhiw'r Castell, Heol y Bont Fach a chyffordd Heol Las a'r A4242. Mae hyn yn tynnu oddi wrth yr Ardal Gadwraeth trwy ddileu diffiniad o ymyl y stryd yn ogystal â cholli deunydd hanesyddol a diffiniad plot.

Mae gan y Castell, ochr yn ochr â Heol y Bont Fach, wal derfyn uchel i'r ffordd, sy'n cynnwys gwaith carreg patrymog canoloesol a chyfoes. Mae hyn yn galed hyd ymyl y stryd ac o uchder mawr sydd braidd yn llethol i gerddwr sy'n cerdded ar hyd ffin ddeheuol yr Ardal Gadwraeth.

Mae rheiliau metel i Heol y Bont Fach yn cynyddu'r uchder hwn hyd yn oed ymhellach. Gallai cyflwyno ymyl werdd helpu i leddfu hyn, er y byddai goruchafiaeth y traffig ar y pwynt hwn yn gwneud hyn yn anodd.

Er bod llawer wedi'i golli, mae elfennau o bwys yn yr Ardal Gadwraeth, gan gynnwys:

- Y wal rwbel patrymog isel i Eglwys San Pedr
- Rheiliau metel nodedig i'r llyfrgell fel enghraifft gynnar o ffoundri Caerfyrddin
- Pyst metel o ffoundri Caerfyrddin
- Gwnaed rheiliau metel i'r gerddi blaen ar gornel Rhiw'r Castell a Heol Spilman yn fwy amlwg fel enghraifft brin mewn ardal a oedd fel arall yn fasnachol
- Rheiliau metel i Gofeb Nott
- Rhai waliau terfyn cerrig rwbel cynnar y tu ôl i Heol y Brenin i'w gweld o Res Wood



Wal derfyn garreg i Eglwys San Pedr



Rheiliau metel, meinciau ac arwyddion wrth gofeb Nott



Rheiliau metel i llyfrgell Caerfyrddin

Crynodeb o nodweddion allweddol

Maes Nott a'r Clos Mawr

Sgwariau tref hanesyddol sy'n creu ymdeimlad o amgáu ond gyda chipolwg rhwng strydoedd ac at strydoedd cyfagos. Maent yn darparu cyrchfannau ac yn cynnig eiliadau o saib ac ymgynnull. Gellir edrych ar ddrychiadau yn eu cyfanrwydd sy'n nodwedd unigryw o fewn y dref. Mae adeiladau fel arfer yn dri llawr gydag eithriadau 2 a 4 llawr a 2-3 bae ond gydag adeiladau cornel mwy ac adeiladau tirnod. Mae rhai adeiladau cyfoes wedi rhagori ar hyn er anfantais i'r ardal. Wedi'i bedestraneiddio gyda sets cerrig a phafinau gyda nifer o goed stryd. Cyfres o arddulliau pensaernïol, cyfnodau o ddatblygiad a deunyddiau gyda phob adeilad yn cael ei ddefnyddio'n fasnachol.



Heol Las

Bryn sy'n codi'n raddol o'r de i'r gogledd sy'n darparu golygfeydd eang o'r dirwedd y tu hwnt a phrif lwybr traffig gyda pharcio ar y stryd sydd wedi effeithio ar gymeriad gweledol yr ardal. Mae tarmac ar ffordd a phalmentydd. Mae adeiladau yn 2-3 llawr ac yn lled 2-4 bae. Mae rhai adeiladau cyfoes wedi rhagori ar hyn ar draul edrychiad y stryd. Mae'r holl adeiladau at ddefnydd masnachol, defnydd preswyl o bosibl uchod. Mae lonydd cefn yn darparu cysylltiadau rhwng Heol y Felin a Heol y Cei. Cymysgedd o arddulliau pensaernïol ond yn nodweddiadol adeiladau cymedrol o ddiwedd y 19eg Ganrif i'r 20fed Ganrif gyda gweddoluniau wedi'u rendro a thoeon amrywiol.



Heol y Cei

Mae Heol y Cei yn fwy cyson ei steil, gan ei bod yn un o strydoedd preswyl mwyaf cyflawn y 18fed Ganrif yn y dref. Stryd gul yn creu naws amgaeedig gyda golygfeydd tirwedd i'r de ac wedi'i therfynu gan The Plume of Feathers i'r gogledd. Mae'r adeiladau yn 2-3 llawr ac yn lled 3-4 bae i ddangos eu statws ar gyfer dosbarth canol ar gynnydd. Pob un wedi'i rendro gyda drychiad cyson i'r gogledd sy'n amrywio i'r de wrth i'r ffordd ollwng i lawr. Mae palmentydd yn gymysgedd o darmac a cherrig palmant gyda rhai coed stryd sylweddol, rheiliau hanesyddol, a waliau terfyn o gerrig rwbel.



Rhiw'r Castell

Rhiw sy'n codi'n serth o amgylch y castell sy'n darparu cyfres o olygfeydd panoramig i'r dirwedd y tu hwnt. Yn cael ei ddominyddu gan draffig yn bennaf. Mae datblygiad cyfoes ac adain gefn Swyddfeydd y Cyngor wedi cael effaith negyddol ar olygfeydd. Wal derfyn uchel i'r ffordd, yn cynnwys gwaith carreg patrymog canoloesol a chyfoes. Mae hyn yn galed hyd ymyl y stryd ac o uchder mawr sydd braidd yn llethol i gerddwr sy'n cerdded ar hyd ffin ddeheuol yr Ardal Gadwraeth.



Heol y Brenin

Fe'i gosodwyd fel rhan o gynllun i ehangu'r dref Ganoloesol, gan ymateb i gynllun y ffordd Rufeinig gynt ac felly mae'n fwy unionlin gydag adeiladau fel arfer wedi'u gosod ar ymyl y stryd. Mae topograffeg yr ardal yn gymharol wastad sy'n creu teimlad o amgáu. Adeiladau cornel i'r gyffordd â Maes Nott. Wedi'i ddominyddu'n bennaf gan olygfeydd llinellol, ond gyda golygfeydd trwy lonydd sy'n cysylltu Heol Spilman a Rhes Wood. Mae'r adeiladau'n amrywio o ddechrau'r 18fed Ganrif i ddiwedd yr 20fed Ganrif, gan ddod ag amrywiaeth nid yn unig o ran arddull a manylion pensaernïol, ond o ran perthnasedd, toeau ac uchder lloriau. Mae'r llinell adeiladu hefyd yn amrywio, gyda gweddluniau cribog, adeiladau wedi'u gosod yn ôl o ymyl y stryd, arwyddion crog a baeau ymestynol. Mae bron pob un yn cael ei ddefnyddio'n fasnachol ond gyda rhai lleoliadau cyhoeddus ac adloniant. Mae'r adeiladau yn 3 llawr yn bennaf ond gydag eithriadau 2 a 4 llawr ac o led 2-4 bae gydag eithriadau mewn adeiladau tirnod mwy.



Heol Spilman

Fe'i gosodwyd fel rhan o gynllun i ehangu'r dref Ganoloesol, gan ymateb i gynllun y ffordd Rufeinig gynt ac felly mae'n fwy unionlin gydag adeiladau fel arfer wedi'u gosod ar ymyl y stryd. Mae topograffeg yr ardal yn gymharol wastad sy'n creu teimlad o amgáu. Mae tŵr San Pedr yn dirnod parhaus yn y toeau tra bod yr olygfa orllewinol wedi'i hamgáu gan Neuadd y Sir. Mae adeiladau wedi'u lleoli'n uniongyrchol ar ymyl y stryd gydag eithriadau achlysurol yn 1-2 a 3-4. Yn fwy cyson ei olwg na Heol y Brenin ond gydag amrywiaeth o arddull pensaernïol, manylion, toeau ac uchder lloriau. Mae adeiladau fel arfer yn 2-3 llawr ac yn amrywio o led 2-6 bae gyda drychiadau wedi'u rendro. Defnydd swyddfa yn bennaf yn gymysg â phreswylfeydd, adeiladau cyhoeddus, gwestai a thafarn.



Rhes Woods

Rhes Wood yw'r unig ran o'r Ardal Gadwraeth lle cewch olygfa banoramig o ddrychiadau cefn sy'n ffurfio ei gymeriad ochr yn ochr â chyfres o leiniau caled ac iardiau gwasanaethu cefn. Mae rhai tai wedi'u hymgorffori i linell y stryd. Cyfres o waliau terfyn a fyddai wedi gwahanu'r lleiniau bwrdais y tu ôl i'r adeiladau er eu bod bellach bron i gyd wedi'u colli i ailddatblygu cyfoes.



Sgwâr Jackson

Mae Sgwâr Jackson yn unigryw fel eiliad o fan agored a gwyrdd. Mae'r datblygiadau cyfoes i'r gorllewin wedi effeithio ar ei osodiad ac wedi lleihau ei gyfraniad posibl i'r ardal. Wedi'i guddio'n gymharol o'r prif dramwyfeydd. Yr unig enghraifft lle mae plannu yn diffinio ymyl y stryd. Mae adeiladau'n amgáu 2 o'r 4 ochr ac maent yn ddeulawr gyda dyluniadau syml wedi'u rendro. Sgwâr sy'n wynebu'r cyhoedd yn cynnig seddi gyda golygfeydd i'r dirwedd y tu hwnt.



Heol yr Eglwys a San Pedr

Wedi'i chanoli o amgylch Eglwys San Pedr sy'n eistedd o fewn ynys wedi'i thirlunio y mae'r adeiladau'n ei hwynebu, ond gyda golygfeydd tirwedd i'r de. Tai teras deulawr yn bennaf gyda'r Ficerdy fel eithriad nodedig wedi'i leoli ar ei dir ei hun i ffwrdd o ymyl y stryd. Mae ymylon gwyrdd yn gosod y tai yn ôl o ymyl y ffordd. Deulawr yn bennaf gydag adeilad cornel 3 llawr i Heol y Prior ac un eithriad i'r de. Yn nodweddiadol, 3 bae gyda drychiadau rendrad syml ond gyda rhai adeiladau culach i'r gogledd.



6.0 Dadansoddiad

6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r Ardal Gadwraeth


Yn ogystal â'r adeiladau nodedig hynny a nodir yn adran 4.1, mae llawer o adeiladau llai cymedrol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth; gall hyn fod am sawl rheswm gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys eu cyfraniad treflun, ansawdd pensaernïol, nodweddiad addurniadol, neu gysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.

Er bod nifer o adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal gadwraeth, mewn llawer o achosion mae eu hansawdd pensaernïol wedi'i beryglu gan addasiadau gwael. O ran eiddo domestig, mae hyn yn dueddol o fod oherwydd colli nodweddiad hanesyddol megis ffenestri codi pren. Er gwaethaf hyn, mae'r adeiladau hyn yn dal i ddangos rhinweddau cryf a chyfraniadau cadarnhaol y gellid eu gwella'n fawr trwy wneud iawn am y newidiadau sy'n tynnu sylw. Byddai ceisiadau i ddadwneud newidiadau anghydnaws naill ai fel cais unigol neu fel rhan o ailddatblygiad ehangach yn cael eu cefnogi.

6.2 Adeiladau sy'n tynnu oddi ar yr Ardal Gadwraeth

Mae adeiladau negyddol yn cael eu nodi fel rhai sydd, oherwydd eu maint, eu dyluniad manwl, neu ddeunyddiau, yn anghydnaws mewn perthynas â chymeriad amlycaf yr ardal gadwraeth. Gellir ystyried y rhain fel ymgeiswyr ar gyfer ailddatblygu cyfanwerthol, er y gallai fod yn addas mewn rhai achosion i gadw cragen yr adeiladau hyn, gan osgoi'r carbon ymgorfforedig sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu ar raddfa fawr.

Mae adeiladau cadarnhaol a niweidiol wedi'u nodi ar y map canlynol.



7.0 Arwyddocâd

Un o'r egwyddorion arweiniol ar gyfer rheoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth o arwyddocâd yr ased hwnnw, boed yn adeilad, lle, neu rywbeth mwy anniriaethol. Mae arfer gorau yn awgrymu asesu arwyddocâd yn erbyn cyfres o werthoedd a nodir isod:

Gwerth Tystiolaethol: Yr olion ffisegol a'r ffabrig sydd wedi goroesi sy'n dal i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol: Sut gall yr ardal ein hysbysu am bobl, digwyddiadau neu agweddau ar fywyd yn y gorffennol

Gwerth Esthetig: A yw'r ardal yn bleserus i gerdded o gwmpas a phrofi

Gwerth Cymunedol: Y gwerth sydd ganddi i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r ardal

Gallai pob un o'r gwerthoedd hyn fodoli mewn lefelau amrywiol o isel i uchel ac mae hyn hefyd yn bwysig i'w ddeall. . Mae hefyd yn bwysig cydnabod yr eitemau hynny a allai fod y tu allan i'r categorïau hyn neu ddod o fewn categorïau lluosog i lefelau gwahanol. Gall hyn fod yn arbennig o wir wrth ystyried y nodweddion hynny sy'n creu ymdeimlad o le.

Mae'r crynodeb a ganlyn yn nodi'r eitemau allweddol o bwys ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Dilyniir hyn gan archwiliad manylach o bob eitem a gorffennir trwy nodi sut mae pob un yn berthnasol i werthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol ac i ba lefel.

- Safle'r castell a Chaerfyrddin Newydd y datblygodd y dref ohono
- Olion Castell Caerfyrddin gyda Neuadd y Sir oddi mewn

- Yn cynnwys Eglwys San Pedr, y credir ei bod yr adeilad hynaf yng Nghaerfyrddin
- Patrwm strydoedd hanesyddol sydd wedi goroesi i raddau helaeth o'r dref Ganoloesol drwy'r twf a welwyd yn y 18-19eg Ganrif o ran esblygiad organig a chynlluniedig
- Dau sgwâr tref amlwg o darddiad hanesyddol
- Blociau cynlluniedig gyda drychiadau i'r ddwy stryd
- Potensial archeolegol uchel a rhai gweddillion canoloesol uwchben y ddaear wedi goroesi
- Sawl cysylltiad â digwyddiadau a phobl nodedig
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i, o a drwy'r ardal, a ddiffinnir yn aml gan adeiladau
- Amrywiaeth o fathau o adeiladau, defnyddiau, manylion a deunyddiau sy'n addasu golygfeydd stryd
- Cyfres o adeiladau tirnod wedi'u britho â therasau mwy cyson
- Adeiladau lleol a chenedlaethol o bwys
- Teimlad cryf o amgáu yn erbyn golygfeydd ehangach o'r dirwedd, golygfeydd trwy lonydd cefn a sgwariau tref
- Cyfres o gysylltiadau hanesyddol sy'n cysylltu'r prif rwydwaith strydoedd
- Yn ddarluniadol o dwf y dref yn y 18fed Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif gan gynnwys adeiladau masnachol a chyhoeddus
- Olion o elfennau hanesyddol o ddodrefn y strydlyn, gan gynnwys rheiliau a physt
- Adeiladau wedi goroesi o'r 18fed Ganrif
- Cyfres o adeiladau cornel amlwg yn nodi cyffyrdd yn y stryd

- Prif graidd masnachol gyda chyfres o flaenau siopau o ansawdd uchel o'r 19eg Ganrif sydd wedi goroesi
- Enghreifftiau da o adfywio trefol o ddechrau – canol yr 20fed Ganrif

Caerfyrddin Newydd

Wedi'i lleoli ar y man croesi isaf i Afon Tywi, cydnabuwyd pwysigrwydd strategol y dref pan adeiladwyd y castell ar deras uchel uwchben tua 1094. gyda Chaerfyrddin Newydd yn datblygu o'i chwmpas yn cynnwys dau sgwâr marchnad a chyfres o leiniau bwrtais. Yn y 14eg Ganrif daeth yn un o'r trefi muriog canoloesol cyntaf yng Nghymru ac mae'n parhau i fod yn dref sirol Caerfyrddin a'r dref hynaf yng Nghymru sy'n cael ei meddiannu'n barhaus. Ar y cyd â 'Hen Gaerfyrddin' i'r dwyrain, dyma'r man lle gellir olrhain gwreiddiau'r dref bresennol ac mae'n cadw cryn dipyn o ffabrig yn ogystal â chysylltiadau llai anniriaethol â'r gorffennol trwy ei phatrwm strydoedd sydd wedi goroesi a digwyddiadau hanesyddol. .

Castell Caerfyrddin a Neuadd y Sir

Wedi'i adeiladu tua 1094 daeth y castell yn ganolbwynt grym Seisnig a'r arglwyddiaeth Eingl-Normanaidd leol yn ne-orllewin Cymru yn ogystal â bod yn gartref i lywodraeth frenhinol yn ne Cymru. Ym 1648 dychwelodd y Castell i'r senedd a gorchynnwyd iddo gael ei ddatgymalu gan Cromwell, gan barhau yn y cyflwr hwnnw hyd 1787 pan ymgorfforwyd y brif ran yn y carchar sirol newydd, a gwblhawyd ym 1792 gan John Nash.

Fel heneb gofrestredig i gydnabod ei werth hanesyddol sylweddol a'i botensial archeolegol, mae'r castell a neuadd y sir restredig yn dal i ddomynddu nifer o olygfeydd, yn ein hatgoffa o bwysigrwydd y castell yn natblygiad Caerfyrddin ac yn rhan arwyddocaol o gymeriad yr ardal.

Eglwys San Pedr

Eglwys blwyf Anglicanaidd yn dyddio o'r 12fed Ganrif, gyda newidiadau trwy gydol ei hanes, ond yn dal i gynnwys cryn dipyn o ffabrig canoloesol. Rhestrwyd yr eglwys yn radd I oherwydd ei harwyddocâd hanesyddol, o fewn ei gwneuthuriad yn ogystal â'r hyn y gall ein hatgoffa o ddatblygiad hanesyddol Caerfyrddin. Mae hefyd yn cynnwys casgliad rhagorol o henebion o fewn y fynwent ac yn gartref i nifer o bobl nodedig. Mae'r tŵr i'w weld o nifer o leoliadau ledled yr Ardal Gadwraeth yn ogystal â nodi'r fynedfa ddwyreiniol i'r Ardal Gadwraeth.

Patrwm strydoedd hanesyddol sydd wedi goroesi

Mae'n debyg mai'r castell oedd yn pennu cynllun y dref gyda'i strydoedd crwm yn awgrymu iddi dyfu'n organig wrth ei ochr, o gymharu â'r ffyrdd hir syth a welwyd i'r dwyrain a'r gorllewin a oedd yn debygol o fod yn estyniadau cynlluniedig. Yn wahanol i ardaloedd eraill yn y dref, tarfwyd ar gynllun y ffordd Rufeinig gynt gan y castell a chreodd gyfres o lwybrau troellog mwy organig o amgylch muriau a mwnt y castell. Mae'r patrwm strydoedd yn dal yn gyfan i raddau helaeth ac yn parhau i lywio datblygiad a'r ffordd y mae rhywun yn symud drwy'r ardal ac yn ei phrofi.

Sgwariau tref o darddiad hanesyddol

Roedd gan y cynllun tref Ganoloesol ddau sgwâr tref yn ei graidd, sy'n dal i fodoli yn eu ffurf a'u lleoliad. Codwyd Neuadd y Dref i'r isaf o'r rhain ym 1767-77 i gymryd lle neuadd ddinesig gynharach o'r 16eg Ganrif ac yn y 19eg a'r 20fed Ganrif ymgorfforwyd cerfluniau coffa yng nghanol y sgwariau. Maent nid yn unig yn meddu ar werth hanesyddol y gellir ei gydnabod o hyd ond maent hefyd yn darparu mannau gorffwys, yn gyrchfannau ac yn nodweddion treflun sy'n effeithio ar olygfeydd, symudiad ac sy'n gydrannau unigryw o'r dref.

Blociau wedi'u cynllunio

Yn wahanol i lawer o weddill y dref, sydd wedi'i gosod ar hyd cyfres o ffyrdd gyda phrif ddrychiadau i'r stryd a drychiadau cefn i'w gweld o'r ffyrdd eilaidd y tu ôl, mae llawer o'r ardal yn cynnwys cyfres o flociau gyda drychiadau cynradd i'r ddau ddrychiad stryd. Yn hanesyddol roedd canol y blociau hyn yn cynnal cyfres o fannau gwyrdd, sydd bellach wedi'u colli oherwydd estyniadau. Mae hon yn nodwedd unigryw sy'n helpu i godi statws canol y dref.

Potensial archeolegol

Mae'r ardal wedi cadw lefel uchel o botensial archeolegol o dan y ddaear yn ogystal â chyfres o olion canoloesol sydd wedi goroesi gan gynnwys claddgelloedd, dwy ran fer o wal ganoloesol y dref, Eglwys San Pedr a'r Castell a wal derfyn sy'n cadw cysylltiad diriaethol â'r hanes a datblygiad yr ardal.

Digwyddiadau a phobl nodedig

Mae'r Ardal Gadwraeth wedi bod yn dyst i nifer o ddigwyddiadau hanesyddol nodedig, mae wedi bod yn gartref i nifer o drigolion nodedig ac mae'n cadw cysylltiad ffisegol â llawer o'r rhain trwy strwythurau adeiledig. Mae hyn yn cynnwys Robert Ferrars, diwygiwr Protestannaidd a siaradodd yn erbyn Mari Tudur, a losgwyd wrth y stanc o fewn Maes Nott yn yr 16eg Ganrif; bu farw Edmwnd Tudur, tad Harri VII, yn garcharor yn y Castell; Syr Rhys ap Thomas, un o brif gynghreiriaid Harri Tudur ac un o arwyr Brwydr Bosworth; Syr Walter Devereux, iarll cyntaf Essex; a Charlotte Dalton, wyres Siôr III oll wedi'u claddu yn Eglwys San Pedr. Bu'r Cadfridog Syr Nott farw yng Nghaerfyrddin yn 1845 a chladdwyd ef yn San Pedr; roedd yr arlunydd a'r Eifftolegydd Ernest Jones; hynafiaethydd a churadur George Evans; a'r cerddor Sidney Jones i gyd yn byw yn Heol y Cei. Bu'r Eiriolwr dros Addysg Merched Elizabeth Philips Hughes yn byw yn Heol Spilman. Neuadd y Dref yw'r unig waith yng Nghymru gan Syr Robert Taylor; cynlluniwyd neuadd y sir gan Syr Percy Thomas, pensaer Cymreig blaenllaw; Oriol Myrddin yw'r ysgol gelf bwrasol gyntaf yng Nghymru; Cynlluniwyd banc Barclays gan George Morgan & Son, pensaer lleol nodedig; cynlluniwyd carchar y sir gan John Nash, pensaer enwog o'r cyfnod Sioraidd; ac ailsefydlodd John Nash ei bractis pensaernïol yng Nghaerfyrddin ar ôl methdaliad yn Llundain.

Golygfeydd arwyddocaol

Mae topograffeg a datblygiad hanesyddol yr ardal yn creu cyfres o olygfeydd arwyddocaol i, o a thrwy'r Ardal Gadwraeth, gan gynnwys golygfeydd stryd hir wedi'u cyferbynnu â golygfeydd byrrach o'r strydoedd, golygfeydd caeedig ar sgwariau'r dref, golygfeydd gwyrddoedig o amgylch y llwybrau troellog o amgylch y Castell, golygfeydd caeedig trwy lonydd a'r golygfeydd ehangach tuag allan i'r dirwedd tu hwnt. Mae Cofeb Nott a Chofeb Ryfel y Böer, yn ogystal â thref San Pedr, hefyd yn dirnodau arwyddocaol yn y strydlyn. Mae pob un o'r golygfeydd hyn yn rhoi persbectif gwahanol o'r ardal, sut mae wedi datblygu ac yn newid y ffordd y mae rhywun yn symud ac yn profi pob rhan

Amrywiaeth o arddulliau adeiladu

Mae amrywiaeth o fathau o adeiladau, oedrannau, defnyddiau, manylion pensaernïol a deunyddiau, yn aml o ansawdd uchel, yn addasu golygfeydd strydoedd yn barhaus a chreu mannau o ddiddordeb a darganfyddiad. Mae hyn yn cael ei chwyddo ymhellach gan yr arwyddion crog, y toeau amrywiol, blaenau siopau a gweddlniau amrywiol i'r strydoedd a'r sgwariau sy'n annog pobl i symud drwy'r ardal a chydabod datblygiad parhaus ac esblygiad y dref.

Adeiladau tironod wedi'u britho â therasau mwy cyson

Mae cyfres o adeiladau tironod mwy wedi'u gosod o amgylch a rhwng terasau mwy cyson o adeiladau o arddull a dyluniad tebyg gan greu eiliadau amlwg o fewn y strydlyn a chwalu golygfeydd stryd a fyddai fel arall yn hir. Yn aml wedi'u gosod ar gorneli a chyffyrdd, fe'i defnyddir yn gyffredin hefyd i derfynu golygfeydd caeedig.

Adeiladau lleol a chenedlaethol o bwys

Mae cyfres o adeiladau rhestredig ledled yr Ardal Gadwraeth sydd wedi'u rhestru oherwydd eu hansawdd pensaernïol ac mae eu ffabrig hanesyddol sydd wedi goroesi o'r crynodiad uchaf na'r holl Ardaloedd Cadwraeth eraill yn y dref. O'r herwydd maent nid yn unig yn cyflwyno esthetig o ansawdd uchel ond hefyd yn caniatáu i rywun ddeall sut y gallech fod wedi profi'r ardal yn y gorffennol. Lle mae ffabrig hanesyddol wedi goroesi, gall hyn hefyd arwain y gwaith o adfer manylion coll ac ysbrydoli datblygiad yn y dyfodol sy'n deillio o gymeriad ansawdd uchel yr ardal.

Amgaead, golygfeydd allan, rhwng ac o fewn sgwariau trefi

Mae'r ardal yn cynnwys cymysgedd o fathau o adeiladau o adeiladau tironod ar wahân, i derasau a sgwariau, ond gyda bylchau ar gyffyrdd strydoedd ac i lawr lonydd cefn. Mae hyn yn creu cyfres o olygfeydd stryd ond yn wasgaredig gyda chipolwg rhwng adeiladau a golygfeydd panoramig ehangach ar ysbeidiau, yn amrywio rhwng teimlad o fod wedi'i amgáu a bod yn agored wrth i chi gerdded trwy a phrofi'r ardal. Mae hyn yn creu amrywiaeth a diddordeb sy'n cael ei chwyddo gan yr amrywiaeth o arddulliau pensaernïol ac yn annog archwilio a darganfod.

Cysylltiadau hanesyddol

Wedi'u gosod rhwng y prif strydoedd mae cyfres o lonydd cefn hanesyddol sy'n creu torbwyntiau a chipolwg ar yr ardaloedd mwy anffurfiol y tu ôl i'r prif ddrychiadau. Mewn rhai achosion, mae'r rhain yn cael

eu hanwybyddu, ac mae eu cyflwr yn dioddef, ond ar yr arcêd rhwng Heol y Felin a Heol Las ac o Heol y Brenin i Sgwâr Jackson, mae'r rhain yn ardaloedd llawn cymeriad a deniadol o ddarganfod a diddordeb.

Twf yn y 18fed a dechrau'r 20fed Ganrif

Fel prif galon masnachol y dref, mae amrywiaeth eang o ddefnyddiau yn parhau. Yn y 18fed a'r 19eg Ganrif, roedd y rhain yn cynnwys tai coffi, tafarndai, warysau, preswylfeydd preifat, sefydliadau addysgol, swyddfeydd proffesiynol, adeiladau masnachol a chyhoeddus

Adeiladau'r 18fed Ganrif

O gymharu ag ardaloedd eraill yn y dref, mae nifer fawr o ffabrigau o'r 18fed Ganrif wedi goroesi, gan gynnwys y tai i Heol y Cei, Neuadd y Dref a Llyfrgell Caerfyrddin. Roedd hwn yn gyfnod o dwf o fewn y dref a gall yr adeiladau hyn ein helpu i gysylltu a deall sut y datblygodd y dref yn ystod y cyfnod hwn.

Adeiladau cornel amlwg

Mae corneli'n aml yn cael eu dathlu o fewn yr Ardal Gadwraeth trwy ddylunio adeiladau cornel amlwg sydd wedi cynyddu ran amlygrwydd trwy uchder lloriau uwch, deunyddiau o ansawdd uchel ac addurniadau arwyneb. Mae'r rhain yn creu cyfres o dirnodau ar hyd drychiad y stryd yn ogystal â marcio'r fynedfa i stryd gyfagos. Mae'r rhain yn adeiladau o ansawdd uchel ynddynt eu hunain, ond mae eu cyfraniad at olygfeydd a strydlyn hefyd yn arwyddocaol.

Prif ganolfan fasnachol

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin yw prif ganolfan manwerthu Caerfyrddin ac felly mae cyfraniad blaen siopau, yn ogystal â'r gweithgaredd a'r bobl a ddaw yn sgil hyn, yn rhan bwysig o gymeriad yr ardal. Mae yna hefyd nifer o flaenau siopau o'r 19eg Ganrif sydd wedi goroesi a all ddweud wrthym am ddatblygiad masnachol y dref yn y cyfnod hwn.

Adfywio trefol yn yr 20fed Ganrif


Weithiau gellir anwybyddu cyfraniad yr 20fed Ganrif at Ardaloedd Cadwraeth, oherwydd gellir gosod eu harddull pensaernïol, eu deunydd a'u manylion ar wahân i nodweddion nodweddiadol ardal. Fodd bynnag, gall dylunio cyfoes o ansawdd da greu amrywiaeth, diddordeb ac ychwanegu'n sylweddol at gymeriad ardal. Mae nifer o enghreifftiau o ansawdd uchel o adfywiad trefol yr 20fed Ganrif yn yr Ardal Gadwraeth sy'n darparu cyfraniad o'r fath ac a allai helpu i ysbrydoli dyluniadau cyfoes eraill o ansawdd uchel. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys Theatr y Lyric, 17-18 Heol y Brenin a 39-41 Heol y Brenin.

Gwaith haearn hanesyddol Olion elfennau hanesyddol o ddodrefn y strydlun, gnan gynnwys rheiliau a physt Roedd sefydlu'r ffoundri yn yr 19 eg Ganrif yn agwedd bwysig o ddatblygiad diwydiannol y dref, ac mae nifer o enghreifftiau o waith haearn yn dal i fodoli. Mae'n cynnwys rheiliau a physt mewn patrwm 'Caerfyrddin'. Mae'r enghreifftiau hyn yn sicrhau bod y cysylltiad yn parhau yn ogystal â darparu patrymau y gellir eu defnyddio ar gyfer dyblygiadau hanesyddol pan mae angen dodrefn cyhoeddus newydd.

- Caerfyrddin Newydd
- Castell Caerfyrddin a Neuadd y Sir
- Eglwys San Pedr
- Patrwm strydoedd hanesyddol
- Sgwariau tref o darddiad hanesyddol
- Blociau wedi'u cynllunio
- Potensial archeolegol
- Digwyddiadau a phobl nodedig
- Golygfeydd arwyddocaol
- Amrywiaeth o arddulliau adeiladu
- Adeiladau a therasau tirnod
- Amgaead a golygfeydd allan
- Cysylltiadau hanesyddol
- Twf yn y 18fed a'r 20fed Ganrif
- Adeiladau o'r 18fed Ganrif
- Adeiladau cornel
- Prif ganolfan fasnachol
- Adfywio trefol yn yr 20fed Ganrif
- Gwaith haearn hanesyddol

- Gwerth Isel
- Gwerth Canolig
- Gwerth Uchel

Gwerth Tystiolaethol	Gwerth Hanesyddol	Gwerth Esthetig	Gwerth Cymunedol
Orange	Green		
Orange	Green	Orange	Orange
Green	Green	Green	Orange
Green	Blue	Blue	Blue
Orange	Green	Orange	Green
Orange	Blue	Orange	
Green	Green		
Orange	Green		
		Green	Green
Green	Green	Orange	
Orange	Orange	Orange	
		Orange	
Orange	Orange	Blue	Blue
Green	Green		
Orange	Orange	Orange	
Orange	Orange	Orange	
Orange	Orange	Orange	Orange
Orange	Orange	Orange	Blue
Orange	Orange	Orange	Blue
Orange	Orange	Orange	Blue



8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli

Trosolwg strategol

Ardal gadwraeth yw 'ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig o ran cymeriad neu edrychiad y mae'n ddymunol ei gadw neu ei wella' fel y nodir yn Neddff Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sicrhau bod 'sylw arbennig yn cael ei roi i'r dymunoldeb o gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno' (Adran 72). Mae gan CSC ddyletswydd 'o bryd i'w gilydd i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'u hardal sy'n ardaloedd cadwraeth' (Adran 71).

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r materion a'r bygythiadau allweddol a nodwyd drwy baratoi'r Arfarniad o Ardaloedd Cymeriad ar gyfer Tref Caerfyrddin. I gyd-fynd â phob eitem mae argymhellion ar gyfer ei rheoli. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac nid yw'n eithrio eitemau ychwanegol a allai ddod i'r amlwg naill ai ar hyn o bryd neu o fewn datblygiad yr Ardal Gadwraeth yn y dyfodol.

Mae materion yn ymwneud â'r eitemau hynny sy'n achosi niwed i olwg a/neu gymeriad yr ardal ar hyn o bryd. Bygythiadau yw'r eitemau hynny nad ydynt yn achosi niwed ar hyn o bryd ond a all, trwy newid ansensitif. Dylid hefyd ystyried yr eitemau hynny a nodir fel materion sy'n peri bygythiad parhaus. Ochr yn ochr â phob un mae argymhelliad rheoli gyda'r bwriad o sicrhau bod cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd a'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig, yn cael eu cadw a'u gwella. Gallai'r argymhellion amgylchedd hanesyddol hyn lywio'r gwaith o gynhyrchu dogfen bolisi ehangach a manylach ar gyfer rheoli'r ardal, i'w chynhyrchu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r materion wedi'u nodi drwy ymweliadau safle, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir ac aelodau'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth yr adeiledd hanesyddol presennol ac effaith datblygiadau newydd ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y rhai y nodwyd eu bod yn effeithio ar y parth cyhoeddus.

Mae enghreifftiau hefyd wedi'u darparu i ddangos enghreifftiau da a drwg o reoli'r eitemau hyn i gynnig arweiniad ychwanegol wrth ystyried datblygiad o fewn yr ardal. Mae'n bwysig bod y canlynol yn cael eu darllen ar y cyd â'r holl ganllawiau a dogfennau polisi perthnasol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol CSC 2018 – 2033 a chanllawiau cynllunio atodol.

1.0 Golygfeydd a gosodiad

1.1 Gall golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth fod yn anodd eu diogelu, gan y gall yr adeiladau hynny sydd â'r potensial i effeithio ar olygfeydd allweddol fod y tu allan i ardaloedd gwarchodedig megis Ardal Gadwraeth; weithiau dim ond ar ôl adeiladu y gall eu heffaith ddod yn gwbl amlwg. Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno adeiladau uchel y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, neu'r rhai ar dir uwch sy'n effeithio ar olygfeydd pell o'r dirwedd y tu hwnt. Er enghraifft, mae'r estyniad cefn i Swyddfeydd y Cyngor Dosbarth a'r ystâd dai newydd i Res Wood wedi effeithio ar leoliad y ddwy ardal hyn, yn enwedig golygfeydd trwy ac i'r Ardal Gadwraeth.

Dylid asesu datblygiad o fewn gosodiad yr ardal gadwraeth yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n cael ei ystyried yn niweidiol. Ni ddylai datblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad guddio na thynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn, tuag at neu o'r ardal gadwraeth. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u hamlygu yn yr arfarniad, fodd bynnag efallai y bydd eraill yn nodi mwy.



Dylid asesu cynigion sydd â'r potensial i effeithio ac sy'n dod o fewn y golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth sydd ynddi, yn ofalus. Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur sy'n dangos effeithiau posibl cynigion i ddangos yr effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu ei gosodiad.

1.2 Mae strydoedd ymyl a chefn adeiladau yn rhan gymeriad o'r Ardal Gadwraeth, gan gynnig cip-olygfeydd i ffwrdd o'r brif dramwyfa. Oherwydd diffyg gwelededd canfyddedig gall yr ardaloedd hyn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol megis sbwriel, difrod i adeiladau, tir y cyhoedd, a graffiti. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn dioddef o ddiffyg cynnal a chadw cyffredinol ar dir y cyhoedd a thriniaethau ffiniau, sy'n erydu cymeriad yr ardaloedd hyn. Mae enghraifft o hyn yn Woods Row a'r lonydd cefn sy'n cysylltu Heol Spilman a Heol y Brenin.

Dylid asesu cynigion datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad ac ymddangosiad strydoedd ymyl ac adeiladau cefn, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod yr ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n cael ei ystyried i fod yn achosi niwed.



2.0 Ailddatblygu

2.1 Gall defnyddio deunyddiau modern nad ydynt yn ategu neu'n briodol i'r paled presennol o ddeunyddiau erydu cymeriad hanesyddol ac arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth. Er y dylai adeilad fod o'i amser, bydd rhywfaint o barch at baled deunyddiau gwreiddiol yr Ardal Gadwraeth yn sicrhau parhad. Yn yr un modd, mae adeiladau o ddyluniad gwael wedi achosi niwed i'r Ardal Gadwraeth; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol dyluniad y 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif i atal niwed pellach.

Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad ac edrychiad unigryw yr ardal gadwraeth a'i gosodiad, a dylent fod o raddfa, dwysedd, uchder, ffurf, mäs, gosodiad, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl priodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, o ran dyluniad a deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai pob gwaith ar adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei leoliad a dylai wella ei olwg draddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020.



2.2 Mae lleiniau cornel yn byrth pwysig i'r Ardal Gadwraeth, yn cynnig bylchau naturiol rhwng adeiladau ac yn nodi cyffyrdd â ffyrdd cangen. Er enghraifft, mae'r adeiladau hynny i'r gyffordd â Maes Nott a Heol y Brenin yn creu tirnodau gweledol ac yn dathlu'r mynedfeydd hyn. Mewn cymhariaeth, mae'r rhai i Heol Las yn llawer gwannach, wedi'i dominyddu'n bennaf gan ardal o lawr caled a seilwaith traffig.

Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad ac edrychiad unigryw yr ardal gadwraeth a'i gosodiad, a dylent fod o raddfa, dwysedd, uchder, ffurf, mäs, gosodiad, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl priodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, o ran dyluniad a deunyddiau a ddefnyddir. Lle caiff adeiladau cornel eu hailddatblygu neu eu hadnewyddu, mae angen dealltwriaeth o'u heffaith a sut y gallant helpu i gryfhau'r pwyntiau allweddol hyn.



2.3 Mae'r pwysau am dai wedi arwain at fewnlenwi lleiniau hanesyddol i Res Wood, yn aml gyda rhai o ddyluniad annodweddiadol nad ydynt yn ymateb i gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad ac edrychiad unigryw yr ardal gadwraeth a'i gosodiad, a dylent fod o raddfa, dwysedd, uchder, ffurf, mäs, gosodiad, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl priodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, o ran dyluniad a deunyddiau a ddefnyddir.



Eitem Mater

2.4 Mae gwelededd y drychiadau cefn yn Rhos Wood wedi i achosi ardaloedd o newid a anwybyddir fel arfer gael effaith sylweddol ar y parth cyhoeddus, a bwysleiswyd gan golli waliau terfyn ar ymyl y stryd. Mae hyn yn cynnwys gosod grisiau dianc yn y cefn, estyniadau a lloriau caled.

2.5 Mae'r cysondeb o ran uchder llawr, màs a maint y plot yn achosi i unrhyw wyriadau oddi wrth hyn gael effaith uniongyrchol, yn enwedig lle mae golygfeydd pellgyrhaeddol. Er enghraifft, lle mae adeiladau cyfoes wedi'u dylunio gyda lled cynyddol ond heb roi ystyriaeth briodol i chwalu màs yr adeiladau, nid yw'r rhain wedi integreiddio'n llwyddiannus i'w hamgylchoedd.

2.6 Mae'r galwadau ar yr Ardal Gadwraeth oherwydd maint y gweithgarwch masnachol yn arwain at lawer iawn o gasgliadau sbwriel a danfoniadau a all ychwanegu at dagfeydd traffig sy'n erydu cymeriad yr ardal ymhellach. Mae hyn yn destun pryder arbennig ym Maes Nott.

Rheolaeth

Dylid asesu cynigion datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad ac ymddangosiad stryd ymyl ac adeiladau cefn, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod yr ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n cael ei ystyried i fod yn achosi niwed.

Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad ac edrychiad unigryw yr ardal gadwraeth a'i gosodiad, a dylent fod o raddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, gosodiad, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl priodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, o ran dyluniad a deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai pob gwaith ar adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei leoliad a dylai wella ei olwg draddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion dylid cyfeirio at y Canllaw Creu Lleoedd 2020.



Eitem Mater

2.7 Oherwydd dwysedd uchel yr ardal a diffyg ardaloedd gwasanaeth cefn, mae nifer sylweddol o finiau ar briffyrdd cyhoeddus ac o fewn y parth cyhoeddus. Mae hyn yn cael effaith weledol negyddol ar yr Ardal Gadwraeth a gall arwain at ddirywiad pellach oherwydd annog ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rheolaeth



3.0 Newidiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol

3.1 Gall cyflwyno gwaith sy'n ymddangos yn fach gael effaith gronrus ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd a gosodiad yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- Rendro cerrig mân
- Newid ffenestri i ffenestri PVC newydd
- Cyflwyno gwasanaethau newydd sydd mewn manau amlwg
- Gosod dysglau lloeren
- Colli nwyddau dŵr glaw haearn bwrw
- Defnyddio teils coch a theils concrit yn lle llechi
- Colli simneiau
- Colli drysau ffrynt paneli pren gyda chanopiau a setiau drysau
- Colli ffiniau hanesyddol fel rheiliau a waliau cerrig rwbel

Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am fanylion pensaernïol nodweddiadol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-ffitio adeiladau presennol, i wella eu perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach o Gyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau a restrir lle bo'n briodol.



3.2 Mae nifer o adeiladau wedi cael eu hail-rendro gyda rendrad cerfwedd uchel sy'n annodweddiadol ac yn cael effaith negyddol ar y strydlyn.

Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am fanylion pensaernïol nodweddiadol megis ffenestri, a deunyddiau priodol yn cynnwys mathau o rednro a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.



Eitem Mater

3.3 Mae dormerau neu amrywiol raddfeydd a dyluniadau wedi'u hintegreiddio i adeiladau ledled yr Ardal Gadwraeth. Lle mae amrywiaeth o fewn y toeon a bod y dyluniadau o ansawdd uchel gan ddefnyddio deunyddiau sympathetig, mae'r rhain wedi integreiddio'n llwyddiannus. Wrth gyflwyno ffenestri dormer ymhellach, yn enwedig mewn ardaloedd mwy cyson, mae angen deall effaith y rhain.

Mae'n ymddangos bod y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ar adeiladau wedi dioddef ledled yr Ardal Gadwraeth gyda nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael. Oherwydd natur yr Ardal Gadwraeth, caiff hyn effaith sylweddol ar olygfeydd a gall arwain at golli asedau treftadaeth sylweddol yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

Rheolaeth

Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad ac edrychiad unigryw yr ardal gadwraeth a'i gosodiad, a dylent fod o raddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, gosodiad, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl priodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, o ran dyluniad a deunyddiau a ddefnyddir.



Cyhoeddi canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio priodol adeiladau a strwythurau o fewn yr Ardal Gadwraeth.

4.0 Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd

4.1 Gall cynnydd mewn dwysedd traffig a chynlluniau ffyrdd sy'n cael eu rheoli'n wael gael effaith andwyol ar gymeriad cyffredinol yr ardal, gan achosi colli manau aros, ac ardaloedd i ymgynnull a fyddai fel arall yn caniatáu adegau i f fyfyrion a gwerthfawrogi. Mae manau croesi cyfyngedig a phalmentydd cul hefyd yn achosi i strydoedd wahanu oddi wrth ei gilydd a gwerthfawrogiad cyfyngedig o adeiladau oherwydd dwysedd y traffig sy'n cuddio lloriau is. Mae hyn yn arbennig o wir yn Heol Las.

4.2 Mae diffyg cydlyniant wrth drin palmentydd, ffyrdd, a llwybrau troed i gerddwyr, gan gynnwys diffyg cydlyniant yn y defnydd o ddeunyddiau, arwyddion, marciau ffordd a thriniaethau rhwystrau. Gall hyn arwain at ddirywiad cymeriad o fewn y parth cyhoeddus a newidiadau sylweddol rhwng ardaloedd a fyddai fel arall yn rhannu cysylltiad cryf â'i gilydd. Mae'r defnydd o atgyweiriadau lleiniau a dulliau atgyweirio amhriodol hefyd wedi arwain at ddirywiad cyffredinol yn y stryd.

Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd ar gyfer mwy o barthau cerddwyr a chynlluniau ffyrdd gwell. Annog a chefnogi datblygiad newydd mawr a fyddai'n gwella cysylltedd i feicwyr a cherddwyr ac yn ymgorffori manau cyhoeddus.



Cyhoeddi canllawiau dylunio a chynnal a chadw ar ddylunio strydoedd a manau cyhoeddus i annog ymagwedd gydlynol at oleuadau, deunyddiau, triniaethau ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o adnewyddiadau i wella golwg strydoedd gan gynnwys glanhau annibendod, cynnal a chadw gwaith paent a chyflwyno deunyddiau wyneb a chelfi stryd priodol.

Eitem Mater

4.3 Ledled yr Ardal Gadwraeth mae diffyg dyluniad o ansawdd uchel a chyson i ddodrefn stryd, gan gynnwys goleuadau stryd modern a meinciau. Bu rhywfaint o ymdrech i gyflwyno elfennau cyffredin megis gyda byrddau dehongli, ond ni fu hyn yn gyson ar draws yr Ardal Gadwraeth. Byddai ymagwedd gydlynol at ddodrefn stryd o ddyluniad o ansawdd uchel yn helpu i uno cymeriad yr ardal ac yn codi ansawdd tir y cyhoedd yn sylweddol.

Rheolaeth

Dylid dylunio arwyddion a dodrefn yn sensitif a'u hintegreiddio i'r strydlun. Byddai ymagwedd yn helpu i uno cymeriad yr ardal ac yn codi ansawdd tir y cyhoedd. Gellid cynhyrchu canllawiau pellach ar ddylunio arwyddion a chelfi stryd yn yr ardal gadwraeth, er mwyn sicrhau dull cyson o ansawdd uchel.

Mae lle i gyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, deunyddiau palmant traddodiadol, a mwy o blannu strydoedd ledled yr ardal gadwraeth.



5.0 Trin ffiniau a pharcio

5.1 Mae'r cynnydd yn y galw am parcio ar y safle ac ar y stryd wedi arwain at golli ffiniau hanesyddol i gynnwys arwynebau solet a mannau parcio. Gall hyn amharu ar olygfeydd trwy, i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth ac mae'n niweidio cynllun hanesyddol y strydoedd a'r adeiladau. Fel enghraifft o hyn mae Heol Las a Rhes Wood lle collwyd ffiniau hanesyddol i'r stryd ac mae ceir wedi'u parcio yn cuddio golygfeydd o adeiladau.

Dylid cefnogi ailosod waliau terfyn traddodiadol. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau terfyn hanesyddol sy'n gwneud cyfraniad positif i'r ardal. Gellid ystyried defnydd ehangach o Gyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau i waliau terfyn hanesyddol beth bynnag eu huchder.



5.2 Dylid annog y defnydd o sets cerrig ymhellach, ond lle mae mathau cyfoes o balmentydd wedi'u hintegreiddio o fewn hyn mae'n arbennig o amlwg. Mae hyn yn ddigwyddiad nodweddiadol ar gyrbau isel.

Dylid cefnogi ac annog y defnydd o sets cerrig trwy gynhyrchu canllawiau dylunio.



Eitem Mater

5.3 Gall cyflwyno deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a thirlunio caled nad ydynt yn cyd-fynd â'r Ardal Gadwraeth neu o ansawdd digonol wanhau cymeriad a thorri ar draws golygfeydd.

Rheolaeth

Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddylunio strydoedd a manau cyhoeddus i annog ymagwedd gydlynol at oleuadau, deunyddiau, triniaethau ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o adnewyddiadau i wella golwg strydoedd gan gynnwys glanhau annibendod, cynnal a chadw gwaith paent a chyflwyno deunyddiau wyneb a chelfi stryd priodol.



6.0 Dyluniad blaenau siopau

6.1 Mae cyfraniad blaenau siopau i'r Ardal Gadwraeth yn sylweddol, a gall gosod dyluniadau blaen siop anaddas gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal. Ceir nifer o enghreifftiau o flaenau siopau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth a lle mae'r rhain yn bodoli, maent yn gwneud cyfraniad pwysig i'r strydlyn a gallant fod yn ysbrydoliaeth ar gyfer dylunio a arweinir gan dreftadaeth yn y dyfodol. Ymhlith y nodweddion sy'n cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd mae: Y diffyg ystyriaeth rhwng y llawr gwaelod a'r adeilad uchod, er enghraifft, atgynhyrchu lled baeau, a chydabod manylion pensaernïol ac arddull yr adeilad presennol.

Y diffyg ystyriaeth rhwng y llawr gwaelod a'r adeilad uchod, er enghraifft, atgynhyrchu lled baeau, a chydabod manylion pensaernïol ac arddull yr adeilad presennol.

Wynebau mawr nad ydynt yn gymesur ag adeiladau cyfagos, neu sy'n llethu blaen yr adeilad ac yn gorchuddio manylion hanesyddol sydd wedi goroesi.

Lle mae blaen siop presennol yn enghraifft dda o arddull gynharach sy'n briodol i gymeriad yr ardal a'r adeilad sy'n lletya, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na'i newid. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli blaenau siopau ac arwyddion hanesyddol. Mae gan ddisodli blaenau siopau modern anghydnaws â chynlluniau mwy priodol y potensial i wella adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth yn fawr a dylid ei gefnogi.

Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu maint a chymesuredd yr adeilad lletyol. Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio.

Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu maint a chymesuredd yr adeilad lletyol. Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio.



Eitem Mater

Defnyddio arwyddion amhriodol, gan gynnwys arwyddion wedi'u goleuo.

Defnyddio deunyddiau neu liwiau cyfoes amhriodol, megis Persbecs, PVC neu alwminiwm, nad yw eu natur adlewyrchol fel arfer yn parchu'r palet o ddeunyddiau yn yr Ardal Gadwraeth neu adeiladau cyfagos.

Drychiadau dau ddimensiwn, gan gynnwys ardaloedd mawr o wydr plât, sy'n dominyddu'r ffasâd ac nid oes ganddynt lawer o berthynas â thriniaeth y drychiadau uwchben.

Colli amgylchiad ffenestri sy'n darparu sylfaen i flaen y siop uwch ei ben a'i dirio o fewn y strydlun.

Gosod caeadau diogelwch allanol a all effeithio'n sylweddol ar edrychiad allanol adeilad ac ychwanegu at ddiffyg diogelwch canfyddedig.

Rheolaeth

Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion a chysgodlenni amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac edrychiad traddodiadol yr ardal, gan gynnwys arwyddion wedi'u goleuo.

Dylai blaenau siopau newydd ddefnyddio ansawdd uchel a pharchu deunyddiau traddodiadol yr adeilad lletya. Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio.

Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu maint a chymesuredd yr adeilad lletyol. Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio.

Lle mae blaen siop presennol yn enghraifft dda o arddull gynharach sy'n briodol i gymeriad yr ardal a'r adeilad sy'n lletya, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na'i newid, yn cynnwys pob nodwedd fel amgylchiad ffenestr.

Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn caeadau diogelwch nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac edrychiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio.

Eitem Mater

Cyflwyno cysgodlenni neu ganopiâu ar raddfa amhriodol, yn aml mewn deunyddiau anhraddodiadol, sy'n torri rhythm y terasau a'r llinell adeiladu.

Pwysau brandio sy'n gysylltiedig â chyflwyno siopau cadwyn sy'n aml yn dilyn dull gweithredu un maint i bawb heb ystyried nodweddion unigol adeilad.

Colli arwyddion crog traddodiadol.

Uno adeiladau trwy flaen siop estynedig nad yw'n parchu gwahaniad yr adeiladau uchod.

Rheolaeth

Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac edrychiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut i gynyddu diogelwch mewn ffordd addas a sut i ymgorffori cysgodlenni a chanopiâu.

Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac edrychiad traddodiadol yr ardal.

Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli arwyddion crog traddodiadol. Dylid annog cyflwyno arwyddion crog gan y gallant fod o fudd mawr i gymeriad gweddoluniau strydoedd a lleihau'r pwysau i ddarparu arwyddion rhy fawr neu ychwanegol mewn mannau eraill.

Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu maint a chymesuredd yr adeilad lletyol. Cyhoeddi canllaw dylunio blaen siop ac arwyddion i ddangos ymagwedd arfer gorau at ddeunyddiau a dylunio.

Eitem **Bygythiad**

Rheolaeth

7.0 Golygfeydd a gosodiad

7.1 Mae'r mannau gwyrdd presennol yn yr Ardal Gadwraeth, er eu bod yn gymharol wasgaredig, yn darparu mannau brigo pwysig i'r adeiladau ac mae angen eu diogelu'n effeithiol, yn barhaus, yn enwedig yn ystod gwaith datblygu a newidiadau newydd. Gall colli coed newid golygfeydd allweddol yn sylweddol drwy'r Ardal Gadwraeth.

Dylid cynnal a chadw mannau gwyrdd sylweddol yn weithredol, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig, a'u gwerth ecolegol, yn cael eu cadw a'u gwella. Mae lle i ragor o blannu coed a phlanhigion eraill i wella golwg yr ardal gadwraeth a'i photensial ar gyfer bioamrywiaeth a dylid annog hyn. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad positif i'r ardal.



7.2 Mae gan ddatblygiad o fewn lleoliad y Castell a San Pedr y potensial i gael effaith andwyol. Mae angen ystyried a rheoli unrhyw ddatblygiad ar gyrion yr henebion, neu sydd â chysylltiad gweladwy ar ei draws neu ohono, yn ofalus.

Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n cael ei ystyried yn niweidiol. Ni ddylai datblygiad newydd o fewn yr ardal gadwraeth guddio na thynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn, tuag at neu o'r ardal gadwraeth.



Dylid asesu cynigion sydd â'r potensial i effeithio ac sy'n dod o fewn y golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth sydd ynddi fel y Castell a San Pedr, yn ofalus. Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur sy'n dangos effeithiau posibl cynigion i ddangos yr effaith ar gymeriad a golwg yr ardal a lleoliad yr asedau treftadaeth pwysig hyn.

Eitem **Bygythiad**

Rheolaeth

8.0 Dymchwel adeiladau a strwythurau

8.1 Gall dymchwel yn rhannol neu'n gyfan gwbl adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth erydu ansawdd pensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan ar gyfer ailddatblygu neu ardaloedd rhannol megis simneiau, waliau terfyn ac estyniadau.

Mae llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau teilwng heb eu rhestru sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref y cedwir yr adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol.

8.2 Gellir defnyddio cyflwr gwael adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio neu sydd wedi dioddef o waith cynnal a chadw gwael i roi pwysau ar yr Awdurdod Lleol i'w dymchwel a'u hailddatblygu. Gall hyn arwain at gamddealltwriaeth bod ailddatblygu ar raddfa fawr yn briodol, pan allai rheolaeth ofalus o addasiadau yn y dyfodol adfer cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, gwella'r Ardal Gadwraeth, ac osgoi colli carbon ymgorfforedig sydd eisoes wedi'i dreulio drwy ei adeiladu gwreiddiol.

Lle mae tystiolaeth o esgeuluso neu ddifrod bwriadol i ased treftadaeth, ni ddylid ystyried cyflwr gwaethybol yr ased treftadaeth mewn unrhyw benderfyniad. Mae llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau teilwng heb eu rhestru sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref y cedwir y rhain. Os cynigir dymchwel, dylid ystyried y gylchred garbon oes gyfan, gan gymryd i ystyriaeth y carbon sydd wedi'i fewnosod yn yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach nag adeiladu adeilad newydd yn ei le. Dylid annog gofal ac aildefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy fesurau cynnal a chadw, rheoli ac effeithlonrwydd ynni gwell. Dylid annog adfer nodweddion traddodiadol trwy gynhyrchu canllaw dylunio sy'n benodol i'r Ardal Gadwraeth. Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol.



Eitem Bygythiad

- 8.3 Gall colli adeiladau i linell y stryd achosi torbwyntiau sy'n amharu ar y golygfeydd drychiad hir sy'n nodweddiadol o'r ardal a gall arwain at ddrychiadau gwag yn y talcen.

Rheolaeth

Mae llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau teilwng heb eu rhestru sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref y cedwir yr adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn creu bylchau modern a fyddai'n amharu ar olygfeydd hir o linellau strydoedd sefydledig.

9.0 Ailddatblygu

- 9.1 Mae'r ddau sgwâr tref yn rhan arwyddocaol o gymeriad yr ardal ac o arwyddocâd hanesyddol. Oherwydd eu maint dylid ystyried yr adeiladau o fewn y gofodau hyn gyda'i gilydd ac o werth grŵp. Gall datblygiadau newydd nad ydynt yn cydnabod hyn amharu ac effeithio'n sylweddol ar eu lleoliad.

Dylai cynigion datblygu ymateb i a pharchu cymeriad ac edrychiad unigryw yr ardal gadwraeth a'i gosodiad, a dylent fod o raddfa, dwysedd, uchder, ffurf, mäs, gosodiad, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl priodol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, o ran dyluniad a deunyddiau a ddefnyddir.



10.0 INewidiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol

- 10.1 Gall colli nodweddion fel simneiau a chyflwyno dormerau newid y toeau yn sylfaenol a chael effaith andwyol ar olygfeydd.

Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth am fanylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sy'n dymuno gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach o Gyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau lle bo'n briodol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli nodweddion traddodiadol sy'n cyfrannu at gymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth.



Eitem Bygythiad

10.2 Mae topograffeg yr ardal yn golygu y gall gosod eitemau fel erialau a dysglau lloeren erydu cymeriad, yn enwedig mewn ardaloedd o arddull mwy unffurf, neu lle mae golygfeydd stryd hirach.

Gall dewis lliw amhriodol hefyd gael effaith niweidiol ar olygfeydd cymeriad.

Rheolaeth

Gellid ystyried defnydd ehangach o Gyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau o'r fath.



11.0 Dodrefn stryd, arwyddion a ffyrdd

11.1 Gall 'annibendod' strydoedd a grëir gan lawer iawn o arwyddion cyhoeddus, bolardiau, biniau a rhwystrau, yn enwedig ar ymyl ffyrdd, achosi dryswch, cuddio golygfeydd, a thynnu oddi ar yr amgylchedd ehangach.

Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o hanes y dref a phryd bynnag mae'r rhain yn goroesi, dylid eu cynnal.

Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddylunio strydoedd a manau cyhoeddus i annog ymagwedd gydllynol at oleuadau, deunyddiau, triniaethau ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o adnewyddiadau i wella golwg strydoedd gan gynnwys glanhau annibendod, cynnal a chadw gwaith paent a chyflwyno deunyddiau wyneb a chelfi stryd priodol.

Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ar ddylunio arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth ac ymgorffori enwau lleoedd Cymraeg mewn perthynas ag enwau ffyrdd a lleoedd.



12.0 Coed a Thirlunio

12.1 Gall colli coed stryd, ymylon gwyrdd a gofod sy'n darparu bylchau pwysig mewn ardal drefol galed fel arall niweidio cymeriad yr ardal yn sylweddol.

Mae lle i ragor o blannu coed a phlanhigion eraill i wella ymddangosiad yr ardal gadwraeth a'i photensial ar gyfer bioamrywiaeth a dylid annog hyn. Bydd y cyngor yn rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal.



Eitem Bygythiad

12.2 Gall y defnydd o goed, fflora a ffawna estron fod yn groes i'w hamgylchfyd os cânt eu dewis heb ystyriaeth ddyledus i'w cyddestun.

Mae mannau gwyrdd a choed strydoedd yn rhannau sylweddol o gymeriad yr ardal, yn ogystal â chyflwyno buddion ehangach i lesiant preswylwyr ac ymwelwyr. Dylid osgoi colli mannau gwyrdd, boed hyn drwy ddiffyg gwaith cynnal a chadw neu ddatblygu.

Rheolaeth

Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna brodorol pan gaiff cynlluniau tirlunio meddal eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol.

Ni ddylid derbyn cynigion ar gyfer datblygiadau newydd os y w hynny'n golygu colli mannau gwyrdd, neu os nad yw hynny'n bosibl, dylid cynnwys lliniaru'r golled hon yn y cynigion ac ymchwilio i effaith ar gymeriad yr AG. Dylid cynnal a chadw mannau gwyrdd a berchnogir gan y Cyngor yn rheolaidd.

13.0 Newid Defnydd

13.1 Gall cyflwyno gweithgareddau masnachol o fewn hen adeiladau preswyl achosi niwed oherwydd y canlynol;

Byddai unrhyw gynigion ar gyfer newid defnydd adeiladau presennol angen ystyriaeth ofalus o'r effaith ar gymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau canlyniadol i fynediad danfon nwyddau, parcio, a gwasanaethau allanol, megis unedau cyddwyso a pheiriannau eraill. Dylid annog defnydd preswyl parhaus mewn strydoedd a oedd yn breswyl yn hanesyddol.



Cyflwyno arwyddion nad ydynt yn ymateb i gymesuredd neu gynllun yr adeilad.

Cyflwyno ffenestri blaen siop sy'n llethu maint domestig yr adeilad ac yn arwain at golli ffabrig gwreiddiol.

Gall rhannu perchnogaeth achosi dryswch o ran cynnal a chadw ac arwain at ddirywiad cyffredinol yr adeilad.

14.0 Cyffredinol

- 14.1 Archaeoleg
- Wrth ystyried unrhyw gynnig datblygu sylweddol, dylid asesu'r effaith bosibl ar weddillion archeolegol yn broffesiynol a cheisio cyngor ar y ffordd orau o'u cadw a'u hamddiffyn. Dylid ystyried hefyd sut allai defnydd y gorffennol, strwythur ac adeiladau a oedd yn y safle ddylanwadu ar ddyluniad elfennau newydd.
- 14.2 Argyfwng Hinsawdd
- Dylid ystyried cynigion i wella effeithlonrwydd ynni yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ymarferoldeb ac arwyddocâd.
- Os cynigir dymchwel, dylid ystyried y gylchred garbon oes gyfan, gan gymryd i ystyriaeth y carbon sydd wedi'i fewnosod yn yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach nag adeiladu adeilad newydd yn ei le. Dylid annog gofal ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, trwy fesurau cynnal a chadw, rheoli ac effeithlonrwydd ynni gwell.
- 14.3 Cyflawni ac Adolygu
- Mae angen cadw at yr holl ddyletswyddau statudol o dan y Deddfau Cynllunio sy'n deillio o ddynodiad ardal gadwraeth. Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion a wneir yma a llunio cynllun rheoli ffurfiol (bwriadir i'r adroddiad hwn fod yn sail i hyn) a gaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y polisiâu'n parhau'n ddefnyddiol a pherthnasol. Dylai'r Cyngor geisio cynnal astudiaethau perthnasol eraill a chynhyrchu canllawiau pellach fel y nodir yma, lle mae'r adnoddau ar gyfer hyn ar gael.
- 14.4 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth
- Dylai ymgeiswyr ddarparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth, lle ystyrir bod cynnig yn effeithio ar yr ardal gadwraeth (naill ai o fewn y terfyn neu ei leoliad) neu ased treftadaeth oddi mewn iddi.

9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd canlynol yn cyfeirio at bosibiliadau a nodwyd ar gyfer dadwneud niwed, gwella'r ardal a'i gwerthfawrogi, neu reoli datblygiad. Mae'r rhain wedi'u nodi drwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran materion sy'n mynd rhagddynt, bygythiadau a rheolaeth.

1. Ar hyn o bryd mae'r lonydd cefn sy'n cysylltu Heol Spilman a Heol y Brenin, yn ogystal â Bull Lane, yn dioddef o waith cynnal a chadw gwael ac addasiadau amhriodol, gan gynnwys gosod rhwyllau diogelwch sy'n annog pobl i beidio â'u defnyddio ac sy'n cyfrannu at eu dirywiad pellach. Byddai adfywio'r ardaloedd cymharol fach hyn yn helpu i wella ansawdd nid yn unig y llwybrau hanesyddol hyn, ond hefyd yr ardaloedd o'u cwmpas ac yn annog pobl i archwilio'r Ardal Gadwraeth ymhellach.
2. Mae'r wyneb o fewn yr Ardal Gadwraeth yn gymysgedd o balmentydd, concrit a slabiau a cherrig pafin, wedi'u gosod mewn patrymau rheolaidd ac afreolaidd, yn amrywio o un stryd i'r llall ac yn creu gwahaniaeth. Byddai creu canllaw parth cyhoeddus yn sicrhau, wrth i'r cyfle godi, fod agwedd gyson at dir y cyhoedd yn cael ei mabwysiadu, gan helpu i ailsefydlu'r cysylltiad coll rhwng y strydoedd hyn yn ogystal â chodi'r ardal yn gyffredinol.
3. Mae'r prosiect gwella o amgylch y Castell wedi creu lleoliad deniadol ac ystyriol i'r Castell. Wrth i gyfleoedd godi, byddai integreiddio seddau a chelfi tir y cyhoedd sy'n ymateb i hyn o fudd ac yn chwlu'r rhwystr presennol rhwng y Castell a Maes Nott. Byddai cael gwared ar y lle parcio a chyfyngu danfoniadau masnachol yn helpu i atgyfnerthu'r ardal hon.



1

2



3

4a



4b

4. Byddai symud neu ailosod arwyddion priffyrdd o amgylch cofeb Nott ac ar ben dwyreiniol Eglwys San Pedr yn helpu i wella gosodiad y ddau strwythur pwysig hyn.

5. Mae'r wal derfyn uchel a'r rheiliau ar ymyl y stryd o amgylch y Castell braidd yn llethol i gerddwyr sy'n cerdded ar hyd ffin ddeheuol yr Ardal Gadwraeth. Gallai cyflwyno palmant, ymyl gwyrdd neu blanhigion dringo ar waliau cyfoes helpu i leddfu rhywfaint ar y caledwch hwn.

6. Mae'r Mwnt o bosibl yn cynnig golygfa ddi-ddorol ac arwyddocaol, yn ogystal ag ardal gyhoeddus, wrth i chi deithio rhwng Rhiw'r Castell a Heol Spilman. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei ddominyddu gan finiau, parcio oddi ar y stryd a diffyg cynnal a chadw cyffredinol y gellid ei wella'n sylweddol er budd ehangach yr Ardal Gadwraeth ac o bosibl llwybr pellach trwodd i'r castell a Maes Nott.

7. Mae'r datblygiad cyfoes a cholli adeiladau i ymyl y stryd wedi creu golygfa braidd yn anhylaw wrth deithio o amgylch y castell i fyny Rhiw'r Castell. Gwaethygir hyn gan yr olygfa o'r estyniad cefn i swyddfa'r cyngor sir. Byddai cyflwyno adeiladau neu dirlunio ystyriol ac o ansawdd uchel sy'n helpu i sgrinio'r olygfa hon ac ailsefydlu ymyl y stryd yn helpu i wella'r porth hwn. Mae hyn hefyd yn wir ar ymyl ddeheuol Heol y Bont.

8. Byddai cael gwared ar barcio ar y stryd ac ailddatblygu'r llain galed i'r de yn gwella'r golygfeydd ar hyd Heol Las yn sylweddol, yn ogystal â gwella porth i'r Ardal Gadwraeth.

9. Mae'r agoriad llydan i'r ffordd gyferbyn ag Eglwys San Pedr yn gwaethygu effaith y rhwydwaith ffyrdd fan hyn, yn ogystal â darparu golygfeydd clir o'r maes pacio y tu hwnt ac effeithio ar yr eglwys. Gallai cyflwyno coed yma helpu i leihau'r effaith hon er budd yr eglwys a golygfeydd o'r strydoedd i Heol y Brenin a Heol San Pedr, ac ohonynt.



5




6



7



8



- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
- Y newid arfaethedig i'r ffiniau
- Maes cyfle



Carmarthen foot and ankle clinic 01267 237223

BRICKS HAIR SALON

Atodiadau

Atodiad I: Llyfryddiaeth

Cyhoeddiadau

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 [Deddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990 \(legislation.gov.uk\)](#)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/6/3/1623854576/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf>

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021 [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 \(llyw.cymru\)](#)

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017 [Nodyn Polisi Cynllunio Cymru 24 Mai 2017 \(llyw.cymru\)](#)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 [Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy [Dogfen Egwyddorion Cadwraeth \(llyw.cymru\)](#)

Cynllun Cyflawni Economaidd De-orllewin Cymru, Medi 2021 [Microsoft Word - Cynllun Cyflawni Economaidd De-orllewin Cymru TERFYNOL \(llyw.cymru\)](#)

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021 [Adroddiad.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Canllaw Creu Lleoedd 2020 [PlacemakingGuideDigitalENG.pdf \(dcfw.org\)](#)

Gwefannau

Cestyll Cymru, 2009, Castell Caerfyrddin, [Castell Caerfyrddin \(castlewales.com\)](#), 16eg Mawrth 2022

British History Online, cyhoeddwyd yn wreiddiol gan S Lewis, Llundain, 1849, Caerfyrddin-Sir Gaerfyrddin, [Caerfyrddin-Sir Gaerfyrddin | British History Online \(british-history.ac.uk\)](#), 1af Mawrth 2022

Historic UK, 2021, Carmarthen-Merlin's Fortress, [Carmarthen – Merlin's Fortress - Historic UK \(historic-uk.com\)](#), 1af Mawrth 2022

Cyngor Tref Caerfyrddin, [Tref Myrddin - Cyngor Tref Caerfyrddin](#), 1af Mawrth 2022

British Listed Buildings, Dyddiadau amrywiol, [British Listed Buildings - History in Structure](#), 1-10 Mawrth 2022

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2021, Mapiau Degwm Cymru, [Mapiau Degwm Cymru - Hafan \(llyfrgell.cymru\)](#), 14 Mawrth 2022

The National Library of Scotland, 2021, Mapiau AO o amrywiol ddyddiadau, [Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland \(nls.uk\)](#) 1 - 14 Mawrth 2022

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed, 2022, Caerfyrddin, [CAERFYRDDIN – Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed \(dyfedarchaeology.org.uk\)](#) 16 Mawrth 2022



British Property Foundation, 2017, Heritage Works: A toolkit of best practice in heritage regeneration, [BPF - Heritage Works: A toolkit of best practice in heritage regeneration](#), 26 Mawrth 2022

Atodiad II: Geirfa

Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad	Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
A4D	Cyfarwyddyd Erthygl 4	Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchymynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio.	CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin	
			GDO	Gorchymyn Datblygu Cyffredinol	Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer
BAR	Adeilad Mewn Perygl	Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem.		Cadw	Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru
			ARh	Adeilad Rhestredig	Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd 1 am y pwysicaf, Gradd 2* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd 2 am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm
AG	Ardal Gadwraeth	Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella			
GAG	Gwerthusiad Ardal Gadwraeth	Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol			
CPO	Gorchymyn Prynu Gorfodol	Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg		Llain Tir Bwrtais	Mae llain tir tir bwrtais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol
	Ffascgia	Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop			

Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad	Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
LBC	Caniatâd Adeilad Rhestredig	Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol	Sn215	Hysbysiad Adran 215	Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal
CLI	Cynllun Lleol	Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill.	SPG	Canllawiau Cynllunio Atodol	Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw
PPW	Polisi Cynllunio Cymru	Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio	TPO	Gorchymyn Cadw Coed	Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri,ocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol
Deddf P(LBCA) 1990	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol			
	Hysbysiad Atgyweirio	Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig			


Atodiad III: Mapiau



- ALLWEDD:**
- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
 - Y newid arfaethedig ff finiau
 - Adelidau cadarnhaol
 - Adelidau arharol

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
Cyfraniad Adeiladau

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377



- ALLWEDD:**
- Ffyniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
 - Y newid arfaethedig i'r ffiniau
 - Ardaloedd Cadwraeth Cyfagos
 - Adeiladau rhestredig Gradd I
 - Adeiladau rhestredig Gradd II*
 - Adeiladau rhestredig Gradd II
 - Henebion Cofrestredig
 - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
 - Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Ethriadol ac Arbennig yng Nghymru
 - Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu mestru

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
Map o'r Dynodiadau




© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
 © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwaeth Tref Caerfyrddin
- Y newid arfaethedig ff rffiniau
- Mannau gwyrd
- Gerddi preifat / lled-breifat

- Coed
- Grŵp o goed
- Gorchymyn Cadw Coed (TPO)


Ardal Gadwaeth Tref Caerfyrddin
 Coed, Mannau Gwyrd, Parciau a Gerddi



ALLWEDD: — Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
— Y newid arfaethedig ff finiau
 Maes cyfle

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
 Map Cyfleoedd

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
 © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377



0 20 40 80


 Graddfa m

 © Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377

 © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

- ALLWEDD:**
- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
 - Y newid arfaethedig ff finiau
 - Mannau i gerddwyr
 - Blaen siopau hanesyddol
 - ★ Nodwedd hanesyddol o'r treflun
 - ▲ Mosaigau
 - Celfi stryd
 - Twr

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
 Llecynau Cyhoeddus



© Hawffrant y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
 © Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

- ALLWEDD:**
- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
 - Y newid arfaethedig i'r ffiniau
 - ⋯ Ardaloedd sy'n cynnig ymdimlad o le
 - Mannau gwyrdd cadarnhaol
 - Toeau nodedig
 - ★ Y prif dirnod / adeiladau allweddol
 - Golygfeydd o'r dirwedd
 - Golygfeydd o'r stryd
 - Golygfeydd caeëdig
 - Golygfeydd terfynedig
 - Golygfeydd allwryedig

Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin
 Dadansoddi Gofodol

Atodiad IV: Arolwg Ffiniau

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Gwerthusiad a Rheoli Ardal Gadwraeth hwn, ymgwymerwyd ag adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth i ddeall y rhesymeg dros ddynodi'r ardal, ac a yw datblygiad ers ei dynodiad cychwynnol yn golygu y dylid ail-lunio'r ffin hon yn awr. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn drwy gyfres o arolygon safle, yn ogystal ag ymchwil desg ac ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd.

Mae un newid arfaethedig i Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin y gellir ei nodi ar y map a ganlyn. Mae'r lleoliad a'r rhesymau dros y newidiadau hyn wedi'u nodi isod:

Ardal 1 – Heol y Felin

Ychwanegu Heol y Felin o fewn Ardal Gadwraeth

Ar hyn o bryd mae Heol y Felin wedi'i eithrio o ffin yr Ardal Gadwraeth. Bydd ei gynnwys yn alinio ffiniau Ardal Gadwraeth Tref Caerfyrddin ac Ardal Gadwraeth Heol Awst ac yn ychwanegu at warchodaeth i'r parth cyhoeddus sy'n wynebu'r adeiladau rhestredig a'r mynediad hanesyddol i Heol Las.



Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi ac Arweiniad

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i:

- Awdurdodau cynllunio lleol bennu ardaloedd lle mae'n ddymunol eu cadw a'u gwella, a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth (adran 69 [1])
- Awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu gweithgareddau yn y gorffennol yr ardal hon, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth presennol, ac i ychwanegu mwy o ardaloedd cadwraeth (adran 69 [2])
- Awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth ac ymgynghori â'r cyhoedd yn yr ardal dan sylw, gan ystyried safbwyntiau a fynegwyd (adran 71 [1 a 2])
- Wrth i awdurdodau cynllunio lleol arfer swyddogaethau cynllunio o fewn yr ardal gadwraeth 'rhaid rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrrff cyhoeddus, sy'n gorfod nodi a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, a ddisgrifir fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg'. Mae synergeddau clir rhwng y ddyletswydd benodol i gadw neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1990,7 a'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a diogelu treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015.

Gall ardaloedd cadwraeth sy'n cael eu gwarchod a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant pawb.

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol a elwir gyda'i gilydd yn asedau hanesyddol. Mae ardaloedd cadwraeth yn cael eu hystyried yn asedau hanesyddol.
- Mae paragraff 6.1.6 yn datgan bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn ceisio: [...] diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.
- Mae paragraff 6.1.14 yn nodi y dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu gwella eu cymeriad a'u golwg a gwredu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/neu newydd a'u ffiniau. Gall paratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau.
- Mae paragraff 6.1.15 yn nodi bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail buddiant cyhoeddus.
- Mae paragraff 6.1.16 yn nodi y gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n

gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.

- Mae paragraff 6.1.17 yn nodi bod ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.
- Mae paragraff 6.1.29 yn nodi y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisiâu penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisiâu penodol i'r ardal leol yn ymwneud â:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisiâu sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad.
- Gallant hefyd gynnwys polisiâu sy'n ymwneud ag aildefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a

allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisiâu ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.

- Mae paragraff 1.36 yn nodi bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Mae'r ddogfen hon yn sefydlu:

- Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau.
- Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i'w cynorthwyo i gyflawni polisiâu yn y cynllun datblygu lleol. Gallai canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel: Cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.

- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol nodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen dynodiadau neu adolygiadau pellach. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Mae hwn yn bŵer a gedwir yn ôl a ddefnyddir mewn achosion eithriadol, er enghraifft, lle mae ardal o fwy na diddordeb lleol.

6.2 Mae dynodiad ardal gadwraeth yn darparu'r sail ar gyfer polisiâu sydd wedi'u dylunio i gadw neu wella'r holl agweddau ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gallai hyn gynnwys patrwm anheddu a threfniadaeth

gofod a llwybrau yn ogystal ag arddull a math yr adeilad, a'r defnydd o ddeunyddiau a manylion. Gall seilwaith gwyrdd fod yn bwysig hefyd, ond nid yw dynodi ardal gadwraeth yn debygol o fod yn ddull priodol o warchod nodweddion tirwedd, ac eithrio lle maent yn rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol o bryd i'w gilydd lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol ag arfer gorau, dylai hyn fod bob pump i ddeng mlynedd. Mae'n arfer da i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio atodol.

Rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella ardaloedd cadwraeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw rhan o ardal gadwraeth, neu'r cyfan ohoni, bellach yn meddu ar y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi, gellir diwygio neu ddileu'r dynodiad.

6.4 Gwerthusiad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynigion ar gyfer cadw a gwella. Mae'n rhoi darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a all fod yn sail i gynllun rheoli manylach. Dylai gynnwys dadansoddiad o anghenion polisi a rheolaeth yr ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd y rheolaethau cynllunio presennol, yr angen am warchodaeth atodol a dynodi ffyrdd o gadw neu wella cymeriad arbennig. Bydd gan bolisiau cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth sail gadarnach a byddant yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol at nodau hirdymor os caiff cymeriad pob ardal gadwraeth ei ddiffinio a bod polisiâu ar gyfer ei chadw a'i gwella wedi'u nodi'n fanwl yn cynllun rheoli. Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn y meysydd hyn.

6.5 Yn ôl eu natur, mae gan ardaloedd cadwraeth nifer o randdeiliaid a dylai trefniadau rheoli ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan ac ymgysylltu â'r broses o wneud cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Bydd cynigion ar gyfer cadw a gwella hefyd ar eu mwyaf effeithiol pan fydd holl adrannau'r cyngor yn deall arwyddocâd dynodi ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Argymhellir yn gryf felly y dylid cael tîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis priffyrdd a thai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol nodi'n glir y caiff cynigion datblygu eu barnu yn erbyn eu heffaith ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth fel y nodir yn y ddogfen werthuso a rheoli. Bydd rhai cynigion datblygu o fewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o dai annedd, darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr a grëir gan y datblygiad yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn gofyn am ddatganiad dylunio a mynediad.

6.7 Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canolfannau masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reolaeth reoledig a chadarnhaol o newid sy'n annog bywiogrwydd economaidd a bywiogrwydd cymdeithasol a diwylliannol ac sy'n cyd-fynd â rhinweddau pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad cadarnhaol i gymeriad neu olwg yr ardal nac yn wir yn amharu arnynt; dylai eu disodli fod yn ysgogiad i ddyluniad llawn dychymyg o ansawdd uchel ac yn gyfle i wella'r ardal.

6.8 Un o ddibenion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ymddangosiad yr amgylchedd. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd dyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol i roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth yn arwain, yn ymarferol, at safonau mwy manwl gywir pan fydd yr awdurdod yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath.

6.9 Mewn ardaloedd cadwraeth mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg yn eu defnydd o'u pwerau o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, oherwydd mae llawer o ardaloedd yn cynnwys eiddo manwerthu a masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus. Mae hysbysebu yn yr awyr agored yn hanfodol i weithgarwch masnachol a bydd llwyddiant busnesau lleol fel arfer yn helpu perchnogion a thenantiaid eiddo masnachol i gadw adeiladau mewn cyflwr da ac yn ddeniadol eu golwg.

6.10 Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, er bod rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod dymchwel yn gyfystyr â thynnu adeilad i lawr fel ei fod yn cael ei ddinistrio'n gyfan gwbl neu o leiaf i raddau sylweddol iawn. Felly, gallai symud adeilad cyfan ac eithrio ei ffasâd hefyd gyfrif fel dymchwel.

6.11 Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo nad oes angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol o adeiladau ac mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo nad oes angen caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer gwaith penodol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys dymchwel adeilad sydd â chyfanswm ei gynnwys ciwbig heb fod yn fwy na 115 metr ciwbig a dymchwel nodwedd ffin adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu lai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Mae hyn yn golygu na fydd llawer o waith sy'n cynnwys dinistrio ffabrig rhan o adeilad yn waith dymchwel ac ni fydd angen caniatâd ardal gadwraeth.

6.12 Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer ceisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth, a ddylai esbonio pam fod gwaith dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol ochr yn ochr ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu olwg yr ardal.

6.13 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylid asesu cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath yn erbyn yr un meini prawf bras â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Mewn achosion lle'r ystyrir bod adeilad yn gwneud fawr ddim cyfraniad, os o gwbl, bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol fel arfer gael gwybodaeth lawn am yr hyn a gynigir ar gyfer y safle ar ôl ei ddymchwel.

Ni ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddenyddio'r safle oni bai bod ailddatblygu ynddo'i hun yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ystyried egwyddorion bras datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, ei faint, a'i fâs, wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gall fod yn briodol gosod amod ar roi caniatâd i ddymchwel fel nad yw'n digwydd nes bod caniatâd cynllunio llawn wedi'i roi a chontract ar gyfer gwneud y gwaith datblygu wedi'i wneud.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i ddiogelu coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu torri, brigdorri neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid diogelu'r goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gwledol, hanesyddol ac amwynder coed. Mewn rhai achosion, gall plannu newydd neu ailblannu fod yn ddymunol lle byddai hyn yn gyson â chymeriad neu olwg yr ardal.

6.17 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried dull mwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolaethau rheoleiddio, yn hytrach nag ymchwilio pan wneir cwyn ffurfiol yn unig. Bydd ymagwedd gadarnhaol a gweithredol at orfodi yn helpu lleihau nifer yr achosion o dorri rheolau a sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd yr amgylchedd.

6.18 Mae gan ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn rhai penderfyniadau neu fethiant i wneud penderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol ar ganiatâd ardal gadwraeth. Gellir gwneud apêl o dan amgylchiadau sy'n cynnwys y canlynol: Lle mae awdurdod cynllunio lleol: Yn gwrthod cais am ganiatâd ardal gadwraeth; Caniatáu cais am ganiatâd ardal gadwraeth gydag amodau; Yn gwrthod cais i amrywio neu ollwng amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd ardal gadwraeth; Yn gwrthod cais am gymeradwyaeth sy'n ofynnol dan amod a osodwyd ar roi caniatâd ardal gadwraeth; neu Yn methu â phenderfynu ar gais am ganiatâd o fewn 8 wythnos i'w ddilysu gan yr awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Gwneir apêl i Weinidogion Cymru ar ffurflen o fewn chwe mis ar ôl i'r ceisydd gael ei hysbysu o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisiâu lleol ar gyfer rheoli a gwella cadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u hymddangosiad yn cael eu cadw a'u gwella. Dylai hefyd helpu awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) Cadw i gyflawni newid sensitif o ansawdd uchel.

